



Y PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL AR WASANAETHAU MAMOLAETH

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Adroddiad Cynnydd Chwarterol
Yr hydref 2019

RHAGAIR

Ar 30 Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn gwneud gwasanaethau mamolaeth cyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn destun 'mesurau arbennig'.

Fel rhan o becyn ategol ond ar wahân o fesurau a luniwyd i gefnogi ei ymyrraeth, penododd y Gweinidog banel annibynnol i ddarparu'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn mynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol mewn modd amserol, agored a thryloyw.

Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae'n ofynnol i'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth, sydd bellach yn banel awdurdodedig, roi diweddariadau rheolaidd i'r Gweinidog ar y cynnydd a fu o ran cyflawni'r gwelliannau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth yng nghyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn effeithiol, yn canolbwyntio ar ferched a theuluoedd, yn ymatebol ac yn cael ei reoli a'i arwain yn dda.

Dyma adroddiad cynnydd ffurfiol cyntaf y Panel i'r Gweinidog ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o ddechrau mis Mai i ddiwedd mis Medi 2019.

Mick Giannasi (Cadeirydd)

Cath Broderick (Aelod Lleyg)

Alan Cameron (Arweinydd Obstetreg)

Christine Bell (Arweinydd Bydwreigiaeth)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth



Mae **Mick Giannasi** (Cadeirydd) yn Gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae ganddo brofiad helaeth o arwain ar lefel uwch ac ef oedd Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru cyn hyn. Bu'n Gomisiynydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac yn Brif Gwnstabl Heddlu Gwent.



Mae **Cath Broderick** (Aelod Lleyg) yn Gymrawd Anrhydeddus o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a hi yw awdur yr adroddiad *Gwrando ar farn menywod a theuluoedd am Ofal Mamolaeth Cwm Taf* a gyhoeddwyd yn 2019. Mae ganddi brofiad helaeth o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd ac roedd wedi cefnogi'r ymateb i Ymholiad Kirkup ym Mae Morcambe.



Mae gan **Alan Cameron** (Arweinydd Obstetreg) 26 mlynedd o brofiad fel Obstetregydd Ymgynghorol a chafodd ei benodi'n Arweinydd Clinigol Cenedlaethol Obstetreg a Gynaecoleg Grŵp Cydweithredol Gwella Ansawdd Mamolaeth a Phlant yr Alban yn ddiweddar.



Mae gan **Christine Bell** (Arweinydd Bydwreigiaeth) dros 30 mlynedd o brofiad o weithio fel bydwraig yn Lloegr. Am ddeg o'r rheini bu'n Bennaeth Bydwreigiaeth ac mae'n Aseswr Bydwreigiaeth dynodedig gyda Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

TABL CYNNWYS

1	Pwrrpas a Fformat yr Adroddiad.....	1
1.1	Crynodeb o'r Adroddiad	2
2	Y Cefndir a'r Cyd-destun.....	4
2.1	Ymateb Llywodraeth Cymru.....	5
3	Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth	6
3.1	Rolau a Chyfrifoldebau	6
3.2	Ffyrdd Cydweithredol o Weithio	7
4	Ymgysylltu â Merched a Theuluoedd	9
4.1	Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu	9
4.2	Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned	11
4.3	Ymgysylltu â Staff	11
4.4	Meysydd i'w Datblygu	11
4.5	Camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd.....	12
5	Adolygiadau Annibynnol Clinigol	14
5.1	Grwpiau Adolygiadau Clinigol	14
5.2	Meini Prawf Cynhwysiant.....	15
5.3	Digwyddiadau ar ôl Hydref 2018	16
5.4	Hunanatgyfeiriadau.....	16
6	Fframwaith Sicrhau Perfformiad.....	17
7	Ymateb y Bwrdd Iechyd	19
7.1	Amserlen y Cynnydd.....	19
7.2	Sylfeini ar gyfer Gwella	21
7.3	Rhwystrau i Lwyddiant.....	22
8	Asesu Cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth	23
8.1	Un ar ddeg o Argymhellion 'Gwneud yn Ddiogel'	23
8.2	'Ymweliadau Gwirio Cydweithredol'	24
8.3	Cyflawniad Cyffredinol	25
9	Casgliadau ac Argymhellion.....	27
9.1	Y Sefyllfa Bresennol:.....	28
10	Y Camau Nesaf	30
11	Rhestr o Atodiadau.....	32
12	Rhestr o Dermau	44

1 PWRPAS A FFORMAT YR ADRODDIAD

Pwrrpas yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed gan y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (y Panel) yn ystod misoedd Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi 2019, o ran cyflawni'r cylch gorchwyl a bennwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog).

Yn benodol, mae'n rhoi asesiad o'r cynnydd mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ei wneud yng nghyswllt cyflawni'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adolygiad ar y cyd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd (a elwir, er hwylustod, yn 'adolygiad RCOG') o wasanaethau mamolaeth yng nghyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (Cwm Taf gynt) sy'n cynnwys Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysog Cymru.

Pan fo'n briodol, mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r prif heriau a materion sy'n cyfyngu ar gyflymder y cynnydd ac yn crynhoi'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd a/neu'r Panel yn eu cymryd i ymdrin â'r rhain. O reidrwydd, mae'n cyffwrdd â nifer o ystyriaethau sefydliadol ehangach y bydd angen rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae angen eu gwneud i'r gwasanaethau mamolaeth yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Bwriadwyd yr adroddiad i fod yn ddogfen ar gyfer y cyhoedd a, cyn belled ag y bo modd, mae wedi'i ysgrifennu mewn iaith syml sy'n osgoi defnyddio termau technegol a gwybodaeth fanwl am berfformiad. Felly, mae'n bwysig pwysleisio bod y Panel a'r Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth ac mae'r casgliadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad wedi'u hategu gan ddadansoddiad a gwybodaeth fwy manwl. Ond, er mwyn cadw'r adroddiad yn gryno, efallai na fydd y dystiolaeth ategol honno bob amser yn cael ei nodi'n llawn yn yr adroddiad. Os nad felly y mae, a bod y casgliadau'n fwy goddrychol, eglurir hynny.

Wedi dweud hynny, yng nghamau cynnar y broses wella, o gofio bod trefniadau rheoli perfformiad a rhaglen y Bwrdd Iechyd yng nghamau cynnar eu datblygiad, mae mwy o ddadansoddi ar sail naratif yn yr adroddiad cyntaf hwn nag y byddai'r Panel wedi'i hoffi. Y bwriad yw y bydd adroddiadau dilynol yn fwy seiliedig ar dystiolaeth wrth i'r fframwaith asesu a gytunwyd â'r Bwrdd Iechyd (gweler **Adran 6**) ddatblygu.

1.1 CRYNODEB O'R ADRODDIAD

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n adrannau fel a ganlyn-

- Mae **Adran 2** yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r cefndir i benderfyniad y Gweinidog i wneud gwasanaethau mamolaeth Cwm Taf gynt yn destun mesurau arbennig. Rydym wedi cadw'r adran hon yn fyr, yn fwriadol, o gofio bod y Gweinidog wedi rhoi adroddiad manwl ar y materion hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o'r blaen. Yn benodol, roedd wedi cyhoeddi Datganiadau Ysgrifenedig yn esbonio'r cefndir i'r ymyrraeth ar 30 Ebrill 2019 (sydd ar gael [yma](#)) ac, ar 25 Mehefin 2019, yn cadarnhau cylch gorchwyl terfynol y Panel (sydd ar gael [yma](#)).
- Mae **Adran 3** yr adroddiad yn esbonio sut mae'r Panel wedi sefydlu ei hun er mwyn cyflawni ei gylch gorchwyl. Yma hefyd ceir crynodeb o'r broses fusnes y mae wedi'i rhoi ar waith er mwyn gwneud y Bwrdd Iechyd yn atebol am gyflawni yn erbyn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a gytunwyd. Rydym wedi cadw'r adran hon hefyd yn fyr, yn fwriadol, o gofio bod y Gweinidog wedi gwneud Datganiad Ysgrifenedig am sefydlu'r Panel ar 23 Mai 2019 (sydd ar gael [yma](#)) ac wedi rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed ar 16 Gorffennaf 2019 (sydd ar gael [yma](#)).
- Ar ben ei gyfrifoldebau i ddarparu sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn adolygiad yr RCOG, mae gan y Panel hefyd ddau gyfrifoldeb arall sef, yn gyntaf, llunio rhaglen o adolygiadau clinigol annibynnol a'u rhoi ar waith, ac, yn ail, cefnogi'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer ymgysylltu â'r merched a'r teuluoedd y mae adolygiad yr RCOG wedi effeithio arnynt, neu y gallai adolygiad yr RCOG effeithio arnynt yn y dyfodol. Ceir crynodeb o'r cynnydd a fu ym mhob un o'r meysydd hyn yn **Adran 4** ac **Adran 5** yr adroddiad, yn y drefn honno;
- Mae **Adran 6** yn esbonio'r Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig a gytunwyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Panel fel sail ar gyfer rheoli ac asesu cynnydd. Mae hefyd yn esbonio sut y bydd y Panel yn ceisio sicrwydd bod yr hyn y mae'n ei adrodd i'r Gweinidog yn nhermau cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth yn cael ei ategu gan dystiolaeth bendant a'i wreiddio mewn ymarfer gweithredol;
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn adeiladol i ymyrraeth y Gweinidog ac yn cydweithio â'r Panel i roi'r trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y gwelliannau sy'n ofynnol ym maes mamolaeth yn cael eu cyflawni. Yn **Adran 7**, ceir crynodeb o'r trefniadau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i ymyrraeth y Gweinidog. Mae'n tynnu sylw hefyd at y meysydd hynny y mae angen gwneud mwy o waith ynddynt i sicrhau bod y sylfeini ar gyfer gwelliannau hirdymor cynaliadwy yn gadarn yn eu lle;

- Mae **Adran 8** yn nodi asesiad y Panel o'r cynnydd a fu hyd yma o ran cyflawni yn erbyn yr argymhellion yn adolygiad yr RCOG ac adolygiadau eraill cysylltiedig ac yn nodi ble mae angen gwneud mwy o waith. Yn benodol, mae'n tynnu sylw at rai o'r heriau a'r ystyriaethau sefydliadol ehangach sy'n cyfyngu ar gyflymder y cynnydd ac yn esbonio sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r rhain ar lefel gorfforaethol.
- Mae **Adran 9** yn rhoi crynodeb cyffredinol o'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd ac yn **Adran 10** ceir crynodeb o'r hyn y gallai'r Gweinidog ddisgwyl ei weld o ran datblygiadau pellach yn y chwarter nesaf.

2 Y CEFNDIR A'R CYD-DESTUN

Ym mis Hydref 2018, o ganlyniad i bryderon cynyddol am ansawdd a diogelwch y gofal o fewn gwasanaethau mamolaeth cyn Fwrdd Iechyd Cwm Taf, roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol ar y cyd rhwng Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd.

Fel rhan o'u methodoleg, roedd y Colegau Brenhinol wedi cynnal ymweliad tri diwrnod â'r safle ym mis Ionawr 2019 pan oeddynt wedi siarad â staff a chleifion am eu profiadau. Roeddynt yn pryderu gymaint am beth roeddynt wedi'i ganfod nes iddynt gymryd y cam anarferol iawn o wneud argymhellion interim, gyda'r nod o sicrhau gwelliannau ar unwaith yn niogelwch cleifion. Gwnaed un ar ddeg o argymhellion 'gwneud yn ddiogel' ac roedd y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru wedi derbyn a gweithredu ar bob un ar unwaith.

Cyhoeddwyd adroddiad llawn y Colegau Brenhinol yn nodi canfyddiadau eu hadolygiad ar 30 Ebrill 2019. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at bryderon difrifol oedd yn ymwneud â'r canlynol:-

- diffyg cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol;
- rotas a lefelau staffio diogel;
- diwylliant annigonol o ran diogelwch;
- rheolaeth wael ar ddigwyddiadau difrifol a diffyg dysgu ohonynt;
- ymgysylltiad aneffeithiol â chleifion;
- cysylltiadau rhyngbroffesiynol gwan.

Roedd gwendidau ymddangosiadol o ran rheolaeth gorfforaethol ar ansawdd a diogelwch ac ymddygiad a diwylliant amhriodol oedd yn peryglu ansawdd a diogelwch y gofal oedd yn cael ei ddarparu yn dwysáu'r methiannau hyn.

Fel atodiad i'r adroddiad cafwyd naratif oedd yn adrodd straeon merched a theuluoedd oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth. Roedd hwn yn rhoi darlun digalon iawn o brofiad cleifion ac ansawdd y gwasanaeth oedd yn bell iawn o gyrraedd y nod o safbwynt safonau derbyniol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer sylweddol o argymhellion ar gyfer gwella, a derbyniodd y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru y cwbl ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys argymhellion y dylai nifer o ddigwyddiadau difrifol a ddigwyddodd rhwng Ionawr 2016 a Medi 2018 fod yn destun adolygiad clinigol annibynnol gan gynnwys ymarfer golwg yn ôl cyn belled â 2010, ac, o bosib, y tu hwnt i hynny.

2.1 YMATEB LLYWODRAETH CYMRU

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r Colegau Brenhinol, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai gwasanaethau mamolaeth cyn Fwrdd Iechyd Cwm Taf yn cael eu gwneud yn destun 'mesurau arbennig'.

Fel rhan o'r broses uwchgyfeirio, cyhoeddodd y Gweinidog nifer o fesurau ategol ond ar wahân, sef:-

- sefydlu Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth oedd â'r dasg, ymysg pethau eraill, o gael sicrwydd cadarn gan y Bwrdd Iechyd bod yr argymhellion yn adroddiad yr RCOG yn cael eu rhoi ar waith yn erbyn cerrig milltir a gytunwyd;
- penodi David Jenkins, cyn Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, i weithio gyda'r Cadeirydd a'r Bwrdd er mwyn iddynt allu cyflawni gwelliannau ym maes arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol;
- rhaglen gymorth, i'w darparu gan Uned Gyflawni'r GIG, a fyddai'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rhoi gwybod am bryderon a digwyddiadau perthnasol i ddiogelwch cleifion, eu rheoli a'u hadolygu.

Roedd y Gweinidog hefyd wedi penderfynu codi statws uwchgyfeirio cyffredinol y Bwrdd Iechyd i 'ymyrraeth wedi'i thargedu' oherwydd y problemau llywodraethu ac ansawdd ehangach oedd wedi dod i'r amlwg. O ganlyniad, mae cyfle i'r Bwrdd a'i dîm gweithredol, gyda goruchwyliaeth a chymorth allanol, roi mesurau gwella ar waith ar gyfer y sefydliad i gyd.

O safbwynt gwaith ymyrryd ehangach, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad ar y cyd ar hyn o bryd o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer llywodraethu ansawdd a diogelwch. Ar ben hyn, mae AGIC wedi dechrau ar ei rhaglen o adolygiadau thematig o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru.

3 PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL AR WASANAETHAU MAMOLAETH

Sefydlwyd y Panel gan y Gweinidog ar 30 Ebrill 2019 i ddarparu'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i alluogi'r Bwrdd Iechyd i roi argymhellion adroddiad y Colegau Brenhinol ar waith mewn modd amserol, agored a thryloyw.

Daeth y Panel llawn at ei gilydd am y tro cyntaf ar 27 Mai 2019, yn dilyn proses recriwtio a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Panel yn cyfethol cymorth arbenigol ychwanegol yn ôl yr angen ac mae'n gallu cael cymorth busnes a gweinyddol, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

3.1 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Wrth gyhoeddi ei fod yn sefydlu Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth, roedd y Gweinidog hefyd wedi cyhoeddi cylch gorchwyl drafft. Cafodd y rhain eu diwygio yn sgil ymarfer ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys merched a theuluoedd yr oedd y methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol wedi effeithio arnynt.

Cyhoeddodd y Gweinidog cylch gorchwyl diwygiedig ar 25 Mehefin 2019 ar ffurf Datganiad Ysgrifenedig. Mae hwn wedi darparu canolbwynt ar gyfer gwaith y Panel a gaiff ei ddisgrifio yng ngweddill yr adroddiad hwn. Mae gan y Panel bum prif gyfrifoldeb ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y cylch gorchwyl sydd ynghlwm yn *Atodiad A*. Dyma grynodedb ohonynt:-

- goruchwyllo'r gwaith o gyflawni gwelliannau i wasanaethau mamolaeth cyn fwrdd Iechyd Cwm Taf;
- sefydlu a rheoli proses o adolygiadau clinigol annibynnol;
- helpu i ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer ymgysylltu â chleifion a staff;
- uwchgyfeirio pryderon ehangach am lywodraethu i Lywodraeth Cymru neu'r Bwrdd Iechyd;
- rhoi cyngor i'r Gweinidog ar unrhyw gamau pellach y mae angen eu cymryd.

Mae'r Panel wedi mabwysiadu dull strwythuredig ar gyfer ei waith, gan ddefnyddio arferion da o ymyriadau blaenorol, yn enwedig ymyrraeth Llywodraeth Cymru yng Nghyngor Sir Ynys Môn, ymyriad Tawel Fan a'r gwaith a wnaed mewn ymateb i Ymholiad Kirkup yng nghyswllt gwasanaethau mamolaeth ym Mae Morecambe.

Mae'r Panel hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod ei ffordd o fynd ati yn adlewyrchu egwyddorion academaidd

cadarn ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n 'gweithio' er mwyn sicrhau ymyriad llwyddiannus.

Gan adlewyrchu'r dull seiliedig ar dystiolaeth hwnnw ac, yn benodol, yr egwyddor y dylai corff ymyrryd ddarparu arweinyddiaeth model rôl i'r sefydliad sy'n destun yr ymyriad, mae'r Panel wedi llunio a dosbarthu'n eang set o werthoedd ac ymddygiadau sy'n ategu ei ffordd o weithredu. Mae datganiad o werthoedd ac ymddygiadau'r Panel wedi'i nodi yn *Atodiad B*.

Mae prif gyfrifoldebau'r Panel wedi cael eu dosbarthu yn ôl tri maes gwaith, sy'n ymwneud â datblygu:-

- i. proses asesu a monitro gwelliannau;
- ii. cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol;
- iii. strategaeth adolygiadau clinigol.

Ymysg yr heriau y bydd y Panel yn eu hwynebu dros y tir mis nesaf fydd datblygu'r Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad ymhellach mewn cysylltiad â'r Bwrdd Iechyd, er mwyn ei helpu i weithredu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac i fwrw ymlaen â'r Strategaeth Adolygiadau Clinigol o'r cam cynllunio i'r cam gweithredu. Byddwn yn trin a thrafod bob un o'r rhain mewn adrannau sy'n dilyn.

3.2 FFYRDD CYDWEITHREDOL O WEITHIO

Yn unol â'i werthoedd, mae'r Panel wedi datblygu perthynas gydweithredol â'r Bwrdd Iechyd. Nod hyn yw lleihau biwrocratiaeth a dyblygu ymdrech diangen a darparu'r canllawiau, y cymorth a'r anogaeth sydd eu hangen i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni, hyd yn oed os yw hynny mewn amgylchedd o graffu a herio llym. Mae sefydlu perthnasoedd heriol ond cefnogol ar wahanol lefelau yn y Bwrdd Iechyd wedi arwain at lif gwybodaeth well a chyd-ddealltwriaeth well.

Mae'r Panel hefyd wedi buddsoddi cryn dipyn o amser ac ymdrech yn y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi ymgynghori'n helaeth ar ei fethodoleg a'i ddull cyffredinol o fynd ati. Mae hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd briffio rheolaidd ar gyfer aelodau o'r Bwrdd a rhoi diweddariadau ar gynnydd i'r merched a'r teuluoedd y mae'r methiannau yn y gwasanaethau mamolaeth wedi effeithio arnynt ar ffurf cylchlythyr a chyfarfodydd briffio wyneb yn wyneb.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau, mae'r Panel wedi llunio cylch busnes misol sydd wedi'i nodi mewn ffurf sgematig yn *Atodiad C*. Mae hwn wedi'i seilio ar gyfres o gyfarfodydd wythnosol anffurfiol a chyfarfod misol mwy ffurfiol pan mae'r Panel yn cael cyfle i asesu a chraffu ar gynnydd y Bwrdd Iechyd. Mae cyflymder y cynnydd wedi cynyddu ers penodi Rheolwr Busnes y Panel a Chyfarwyddwr Gwella Mamolaeth y Bwrdd Iechyd, sy'n cyd-reoli'r broses oruchwyliaeth.

Yn ogystal, mae ystod o randdeiliaid yn mynychu cyfarfodydd ffurfiol fel sylwedyddion cyfrannog. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymunedol a'r Undebau Llafur. Mae asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r broses ymyrryd, megis AGIC, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Uned Gyflawni, hefyd yn bresennol i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol a bod y dystiolaeth yn cael ei thriongli.

Cynhaliwyd cyfarfod adeiladol â chynrychiolwyr o AGIC, y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn cael cyd-ddealltwriaeth o ddatganiad dull pob sefydliad, rhannu gwybodaeth ar y cyd, cydweithio a chefnogaeth reoleiddiol i'r Panel. Mae'r Panel hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'u prosesau.

4 YMGYSYLLTU Â MERCHED A THEULUEDD

Un o brif gyfrifoldebau'r Panel yw cynghori'r Bwrdd Iechyd ar y camau y mae angen iddo eu cymryd i sefydlu trefniadau ymgysylltu effeithiol sy'n cynnwys merched, teuluoedd a staff yn y gwaith o wella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Mae hyn yn cynnwys adennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ar raddfa ehangach yn y Bwrdd Iechyd.

Mae Arweinydd Ymgysylltu y Panel wedi bod yn cydlynu'r gwaith hwn a byddai'n deg dweud bod mwy o gynnydd i roi gwybod amdano yn y cyswllt hwn nag yn unrhyw feysydd eraill y mae'r Panel yn gyfrifol amdanynt.

I raddau helaeth, mae hyn oherwydd bod yr Arweinydd Ymgysylltu yn rhan o dîm y Colegau Brenhinol a gynhaliodd adolygiad yr RCOG ac mai hi yw awdur yr adroddiad atodol *Gwrando ar farn menywod a theuluoedd am Ofal Mamolaeth Cwm Taf*. Ond mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith mai hi oedd yr aelod cyntaf o'r Panel i fynd ati'n weithredol i ddechrau ar y gwaith a'i bod eisoes wedi meithrin perthynas o ymddiriedaeth â rhai o'r merched a'r teuluoedd cysylltiedig fel rhan o'i gwaith cynharach.

4.1 STRATEGAETH YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU

Mae'r Arweinydd Ymgysylltu wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Bwrdd Iechyd i fwrw ymlaen â'r gwaith y mae angen ei wneud i gynllunio, dyfeisio a chyflawni Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu effeithiol, nid yn unig ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, ond ar raddfa ehangach ar lefel gorfforaethol ar sail y gwaith sy'n cael ei wneud yn benodol ym maes gwasanaethau mamolaeth.

Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau'n llawn eto ond mae'n mynd rhagddo'n dda, er bod rhai rhwystrau i lwyddiant y mae angen mynd i'r afael â nhw os ydym am sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol.

Yng nghamau cynnar y broses ddatblygu, yr Arweinydd Ymgysylltu oedd yn darparu llawer o'r momentwm ar gyfer y gwaith hwn, yn trefnu ac yn hwyluso gweithdai ac yn cadeirio cyfarfodydd beth sydd bellach wedi datblygu i fod yn Fwrdd Prosiect Profiad Merched a Theuluoedd.

Mae Bwrdd y Prosiect yn cael ei gefnogi gan grŵp sy'n wirioneddol amlddisgyblaethol ac sy'n cynnwys nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a Chadeirydd lleyg newydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth sydd wedi cael ei adfywio a'i ail-lansio.

Trefnwyd nifer o ymarferiadau i alluogi staff a defnyddwyr gwasanaeth i weld beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, beth sydd angen ei ddatblygu ymhellach a beth ddylid rhoi'r gorau iddo. Ar sail profiadau lleol a gwersi a ddysgwyd yn sgil Bae

Morecambe a thu hwnt, pennwyd nifer o feysydd gweithgarwch. Gosododd y gwaith hwn y sylfaen i dîm y Bwrdd Iechyd chwarae rôl fwy amlwg yn y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu gorfforaethol.

Erbyn hyn mae Grŵp y Prosiect wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros lunio'r cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth sy'n datblygu, gan ganolbwyntio ei ymdrechion yn y lle cyntaf ar gynllun y gwasanaethau mamolaeth ac anghenion y merched a'r theuluoedd o'u mewn. Mae rhaglen waith wedi cael ei datblygu a lluniwyd cylch gorchwyl sy'n ffurfioli aelodaeth y grŵp ac sy'n egluro'r dulliau adrodd. Y Fydwraig Ymgynghorol sy'n arwain Grŵp y Prosiect erbyn hyn.

Mae'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu gorfforaethol derfynol yn dal yn y broses o gael ei llunio, ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull ymgysylltu interim mewn ymateb i'r argymhellion yn adolygiad yr RCOG a'r gobaith yw y caiff hwn ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth. Mae'r cynnwys yn gwneud defnydd sylweddol o'r adborth a gafwyd gan ferched a theuluoedd sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad *Gwrando ar farn Menywod a Theuluoedd* ac mae'n canolbwyntio ar bedwar prif faes:-

- Cefnogi a rhoi gwybodaeth i ferched a theuluoedd ar adeg allweddol yn eu bywydau;
- Gwrando ar ferched a theuluoedd a defnyddio eu profiadau i ddysgu o sefyllfaoedd pan nad oedd pethau wedi mynd yn dda iawn, a'u gwella;
- Darparu cyfleoedd i gyfrannu at gynllun a darpariaeth gwasanaethau;
- Adfer hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau mamolaeth.

Mae'r Arweinydd Ymgysylltu yn parhau i fynychu Grŵp y Prosiect er mwyn cadw cyswllt â'r Fydwraig Ymgynghorol a'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth fel bod modd parhau i oruchwyllo'r rhaglen. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y rhaglen yn mynd rhagddi'n brydlon a bod y ffocws yn parhau i fod ar fynd i'r afael â'r argymhellion yn adolygiad yr RCOG. Ond, mae parodrwydd y Bwrdd Iechyd i gymryd perchnogaeth yn gam cadarnhaol iawn ymlaen sy'n galluogi'r Arweinydd Ymgysylltu i gamu'n ôl fwyfwy i rôl ymgynghorol, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.

Fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu'r Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig, mae Grŵp y Prosiect yn dyfeisio adnodd hunanasesu a fydd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i olrhain lefelau datblygiad a nodi gwelliannau yn ansawdd y gwasanaeth mae merched a theuluoedd yn ei gael. Bydd adborth o'r broses hon yn cynhyrchu tystiolaeth bellach i gefnogi dealltwriaeth gynyddol o'r newid mewn agwedd sydd ei hangen i gynnal a gwreiddio ymgysylltu a chyfathrebu'n llawn.

4.2 DIGWYDDIADAU YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Un o'r prif elfennau allweddol i'w cyflawni sy'n deillio o'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu yw cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned. Cynhelir y ddau ddigwyddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2019 ac mae bwriad i gynnal digwyddiad pellach yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Bwriad y digwyddiadau hyn yw dangos bod y Bwrdd Iechyd yn sefydliad agored a thryloyw sydd wirioneddol am ymgysylltu â merched a theuluoedd a'u cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu ei wasanaethau.

Mae'r tîm yn gweithio gydag arbenigwyr allanol i ddefnyddio technegau mapio gweledol ynghyd â nifer o ddulliau ymgysylltu arloesol. Bydd y digwyddiadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymgysylltu â chymunedau ehangach. Byddant yn cael eu cynnal mewn lleoliadau cymunedol lleol ac maent wedi'u cynllunio i ganfod y prif faterion sydd o bwys i ferched a theuluoedd yng nghyswllt gwasanaethau mamolaeth a meithrin dealltwriaeth o'r 'hyn sy'n cael ei ystyried yn dda'.

Bydd cynllunio'r digwyddiadau hyn a'u rhoi ar waith hefyd yn cryfhau gallu'r sefydliad drwy feithrin sgiliau ac ychwanegu at brofiad y staff sy'n cymryd rhan ar ffurf hwyluso a chyfathrebu â'u teuluoedd a'u cymunedau lleol. Bydd hyn yn atgyfnerthu perthnasoedd ac yn dechrau adennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd o ran defnyddio gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd.

Mae neilltuo adnoddau i gefnogi digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, a chynllunio prosiectau mewn modd mwy penodedig ar sail ymgysylltu a chyfathrebu ym maes gwasanaethau mamolaeth yn gamau pwysig ymlaen sy'n arwydd bod y Bwrdd Iechyd yn fwy parod i gymryd perchnogaeth ac i ymateb yng nghyswllt datblygu dulliau mwy effeithiol o ymgysylltu a chyfathrebu â chleifion a'r cyhoedd.

4.3 YMGYSYLLTU Â STAFF

Mae cynnydd hefyd wedi bod o ran yr agwedd tuag at gyfathrebu ac ymgysylltu â staff a datblygu arweinyddiaeth. Datblygwyd rhaglen 'Gadewch inni Siarad', gyda'r Prif Weithredwr Dros Dro ac aelodau eraill o'r uwch dîm rheoli yn gynnal cyfres o sesiynau gwrandio. Hefyd, comisiynwyd darparwr allanol i weithio gyda staff, cleifion a phartneriaid i ddeall ac ailosod gwerthoedd ac ymddygiadau'r sefydliad.

4.4 MEYSYDD I'W DATBLYGU

Heb os nac oni bai mae cynnydd wedi bod o ran datblygu dull y Bwrdd Iechyd o ymgysylltu a chyfathrebu, ond mae angen mynd i'r afael â rhai materion fel mater o flaenoriaeth os ydym am gynnal ac adeiladu ar y cynnydd hwnnw, sef:-

- pennu arweinydd o fewn yr uwch dîm rheoli i ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu'r Bwrdd Iechyd i atal diffyg parhaus o ran cydlynu ar lefel gorfforaethol;
- er bod staff y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â'r maes hwn yn frwdfrydig ac yn ymroddedig iawn, mae rhai bylchau o ran capasiti a gallu, yn enwedig yng nghyswllt y sgiliau sydd eu hangen i gyd-gynhyrchu ac ymgysylltu â theuluoedd sy'n profi digwyddiadau anffafriol;
- er bod y gallu, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol, o bosib, ar gael yn y sefydliad ehangach, mae'r gwaith ychwanegol y mae angen ei wneud i gael gwynt dan adain y rhaglen ymgysylltu ynghylch y gwasanaethau mamolaeth yn galw am gynllunio gwaith yn ofalus er mwyn osgoi gorlwytho pobl sydd eisoes yn brysur ac efallai y bydd angen capasiti ac arbenigedd ychwanegol, yn enwedig yn ystod y camau cyntaf;
- ar hyn o bryd, nid yw ymgysylltu â merched a theuluoedd yn digwydd yn gyson ar lefel y gwasanaeth mewn unrhyw ffordd ystyrlon neu drefnus. Efallai bod staff wedi colli'r sgiliau a'r hyder i fynd i'r afael â phryderon ac i hwyluso sgysiau â merched a theuluoedd am eu profiad;
- nid yw canlyniadau'r ymgysylltu, gan gynnwys adborth o arolygon a sylwadau a sgysiau ar y cyfryngau cymdeithasol, wedi cael eu dadansoddi'n llawn, ac felly, er bod themâu sy'n dod i'r amlwg wedi cael eu nodi ar rai lefelau, nid ydynt ar hyn o bryd yn cael digon o ddylanwad ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau mamolaeth nac ar eu gwella.

4.5 CAMAU GWEITHREDU'R BWRDD IECHYD

Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro wedi sylweddoli bod y materion hyn yn ehangach na'r gwasanaethau mamolaeth a bod angen ymateb corfforaethol. Mae'r Arweinydd Ymgysylltu yn cefnogi'r Prif Weithredwr Dros Dro gyda'r gwaith o lunio pecyn o fesurau i fynd i'r afael â'r materion hyn, sy'n cynnwys y camau canlynol:-

- fel mater o frys, creu swydd arwain ar lefel uwch a fydd yn dod â phrofiad cleifion, ymgysylltu â'r gymuned a chyfathrebu ym maes cynllunio a gweithgarwch at ei gilydd; dylai'r swydd fod ar lefel ddigon uchel i drawsnewid y dull ymgysylltu interim sydd ar waith yn y gwasanaethau mamolaeth yn rhaglen gydlynus ar lefel sefydliadol;
- cryfhau gallu'r tîm drwy ganfod staff sydd â'r profiad a'r sgiliau priodol ym maes technegau ymgysylltu arbenigol, gan gynnwys cyd-gynhyrchu o fewn y tîm, gan ddarparu hyfforddiant a chymorth a sicrhau bod digon o allu ar gael eisoes yn hytrach nag ychwanegu rolau at swyddi staff sydd eisoes dan straen ac wedi'u gorlwytho;
- cynnwys staff yn y gwaith o gyd-gynhyrchu digwyddiadau cymunedol a chefnogi datblygu sgiliau mewn cynllunio a chyflawni prosesau ymgysylltu, cyfathrebu a

hwyluso mewn amgylchiadau heriol - gellir defnyddio hwn mewn rhaglen o ymgysylltu cymunedol yn y dyfodol;

- fel blaenoriaeth, canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau staff yng nghyswllt ymateb i bryderon a chanfod materion sy'n dod i'r amlwg yn sgil ymgysylltu ar lefel y gwasanaeth;
- mynd i'r afael â'r diffyg sgiliau o ran dadansoddi themâu'n systematig i sicrhau bod themâu sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cofnodi ac yn rhan o'r broses triongli tystiolaeth ar gyfer gweithredu, er mwyn gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau mamolaeth;
- gellid datblygu arolygon amser real y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion fel bod bydwagedd cymunedol yn gallu cynnal cyfweiliadau ansoddol;
- mae angen hyfforddiant a chefnogaeth ar yr holl staff mewn sgiliau hwyluso. Mae angen ehangu tîm y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion i sicrhau bod y rhaglen amser real yn cyflawni ei botensial ac yn ysgogi newid;
- mae angen adlewyrchu effaith y mesurau hyn ym mharth 'Ansawdd Profiadau Merched a Theuluoedd' yn fframwaith sicrwydd y Panel.

Mae'r Panel hefyd wedi codi pryderon gyda'r Prif Weithredwr Dros Dro ynghylch capasiti a gallu'r sefydliad i reoli pryderon a chwynion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau mamolaeth drwy'r broses 'Gweithio i Wella'. Mae'n ymddangos bod gwaith a wnaeth yr Uned Gyflawni a'i hadolygiad o drin pryderon a chwynion wedi canfod materion tebyg iawn yng nghyswllt Gweithio i Wella a rheoli adborth cleifion ar lefel gorfforaethol.

Mae'r Panel wedi sylwi fwyfwy bod cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion a'r pryderon am wasanaethau mamolaeth ers cyhoeddi adolygiad yr RCOG ac mae'r broses ymyrryd yn golygu bod y tîm presennol wedi'i orlwytho, gan arwain at fregusrwydd yn y tîm.

O ganlyniad, mae llwyth cynyddol o bryderon ac achosion heb eu datrys yn aros i gael eu hymchwilio, gan gynyddu amseroedd ymateb. Nid yw nifer o'r achosion wedi cael eu datrys yn ddigonol i fodloni'r merched a'r teuluoedd sy'n gysylltiedig. Mewn nifer fach o achosion y mae'r Panel yn gwybod amdanynt, mae ymddiriedaeth wedi chwalu'n llwyr.

Mae adborth gan ferched a theuluoedd sy'n cysylltu â'r Panel i gael safbwynt annibynnol er mwyn datrys pryderon parhaus sydd ganddynt yn pwysleisio'r problemau mae staff yn eu rhannu. Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro wedi cydnabod bod angen gweithredu ar frys er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon ac mae camau'n cael eu cymryd ar lefel y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd i gywiro'r sefyllfa.

5 ADOLYGIADAU ANNIBYNNOL CLINIGOL

Mae Strategaeth Adolygiadau Clinigol y Panel bellach wedi cael ei chytuno â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Strategaeth yn sefydlu fframwaith ar gyfer y rhaglen adolygiadau clinigol annibynnol ac yn nodi meini prawf cynhwysiant manwl ar gyfer cam cyntaf y gwaith.

Mae'r Strategaeth ar gael yn llawn a bydd yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. I raddau helaeth, mae'r cynnwys yn hunanesboniadol ac nid oes bwriad ei ailadrodd yma, ar wahân i dynnu sylw at rai materion allweddol a fydd o ddiddordeb.

Pwrpas y Strategaeth yw sicrhau'r canlynol:-

- bod proses adolygiadau clinigol gadarn yn ei lle;
- bod y Bwrdd Iechyd yn cael gwybod am ganfyddiadau neu themâu sy'n dod i'r amlwg yn sgil y broses adolygu i hwyluso dysgu a gwella;
- bod mecanweithiau ar waith sy'n golygu bod modd rhoi gwybod am achosion i gyrff allanol pan fo angen;
- bod y Bwrdd Iechyd yn dysgu gwersi drwy adolygu tystiolaeth i wella diogelwch, ansawdd ac ymatebolrwydd y gwasanaeth mamolaeth;
- bod merched a theuluoedd yn rhan o'r broses (pan maent yn dymuno bod);
- bod staff yn rhan o'r broses adolygu ac y rhoddir adborth ar y canlyniad;
- y gall merched a theuluoedd gael hyder yn y gwasanaethau mamolaeth sy'n cael eu darparu gan gyn Fwrdd Iechyd Cwm Taf.

5.1 GRWPIAU ADOLYGIADAU CLINIGOL

Mae pedwar grŵp yn rhan o'r broses adolygiadau golwg yn ôl:-

1. Achosion rhwng 01 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018 a nodwyd cyn adolygiad yr RCOG (a elwir y 43).
2. Achosion rhwng 01 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018 a ganfuwyd wedyn wrth ddefnyddio'r meini prawf cynhwysiant a gytunwyd.
3. Golwg yn ôl 2010 - 2016. Penderfynir ar y meini prawf a gaiff eu defnyddio ar gyfer y grŵp hwn drwy ddefnyddio canlyniadau'r ddwy garfan uchod.
4. Bydd y merched a'r teuluoedd hynny sydd wedi hunanatgyfeirio yn cael adolygiad o'u gofal, heb ystyried a ydynt yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant ai peidio.

Rhoddir blaenoriaeth yn ôl y drefn maent yn ymddangos uchod, ond efallai y bydd rhai achosion hunanatgyfeirio yn berthnasol i'r meini prawf eraill ac felly byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r grŵp perthnasol.

5.2 MEINI PRAWF CYNHWYSIANT

Prif ffocws fersiwn gyfredol y Strategaeth Adolygiadau Clinigol fydd darparu'r fframwaith a fydd yn hwyluso dechrau ar y gwaith o adolygu'r achosion a ddigwyddodd rhwng 01 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018 (golwg yn ôl 2016-2018).

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi 43 achos yn ystod y cyfnod hwn, ni chafodd y rhain eu hadolygu'n fanwl gan adolygwyr RCOG. Y cwbl a wnaethant oedd rhoi sylwadau ar y broses oedd yn cael ei defnyddio. Felly, i bob pwrpas mae'r Panel wedi dechrau â 'dalen wag' ac wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar feini prawf cynhwysiant sy'n crynhoi'r 43 achos a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd cyn adolygiad yr RCOG ond sy'n fwy eang a threiddgar er mwyn sicrhau eu bod yn dysgu gymaint â phosibl ohonynt, o gofio ei bod yn bosibl iawn y nodir arferion da yn ogystal â meysydd i'w gwella.

Dyma'r meini prawf cynhwysiant y mae'r Panel wedi'u nodi ar gyfer golwg yn ôl 2016-2018:-

- bob achos Mamau a Babanod yn Lleihau Risg drwy Archwiliad ac Ymholiadau Cyfrinachol yn y DU a gofnodwyd;
- bob achos 'Each Baby Counts';
- bob mam a gafodd ei derbyn i'r Uned Gofal Dwys.

Cyflwynwyd y meini prawf cynhwysiant i'r Bwrdd Iechyd ar 06 Awst 2019 ac maent yn anelu at gwblhau'r holl achosion sydd o fewn y cyfnod hwn. Mae rhagor o fanylion am yr achosion sydd wedi'u cynnwys yn y meini prawf hyn yn y Strategaeth Adolygiadau Clinigol.

Yn ychwanegol at y meini prawf uchod, er mwyn sicrhau dysgu ehangach, mae clinigwyr y Panel wedi asesu a gwerthuso pob achos (tua 350) lle'r oedd mamau a babanod wedi cael eu trosglwyddo allan o'r uned lle roeddynt yn cael triniaeth yn y lle cyntaf i benderfynu a oes angen adolygiad clinigol.

O gofio'r cynnydd amlwg yng nghwmpas a lled y broses adolygiadau clinigol annibynnol ac ar sail y gwaith hyd yma, rhagwelir y bydd tua 150 o achosion yn cael eu hadolygu fel rhan o ymarferiad golwg yn ôl 2016-2018. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n sicrhau ansawdd y ffigwr hwn o hyd ac felly amcan ydyw. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r achosion hyn i gyd yn ddigwyddiadau difrifol. Yn hytrach, maent wedi cael eu nodi fel rhai sy'n galw am adolygiad o ofal er mwyn dysgu gymaint â phosibl.

Lluniwyd y broses adolygiadau clinigol i fod yn broses iteraidd ac, yn dibynnu ar y dysgu, efallai y bydd angen i nifer fach o achosion ychwanegol gael adolygiad clinigol wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Ym mhob achos, byddwn yn cysylltu â'r merched a'r teuluoedd y mae hyn yn effeithio arnynt ac yn rhoi'r cyfle iddynt gyfrannu at yr adolygiad os ydynt am wneud hynny. Byddwn hefyd yn cynnig cymorth priodol iddynt yn ôl yr angen.

Mae cytuno ar y Strategaeth Adolygiadau Clinigol a'r gwaith cwmpasu a wnaed mewn perthynas â'r cyfnod sylweddol cyntaf yn gam arwyddocaol ymlaen sy'n golygu y bydd modd dechrau'r rhaglen adolygiadau clinigol yn ystod yr hydref.

5.3 DIGWYDDIADAU AR ÔL HYDREF 2018

Elfen arall o'r broses adolygiadau clinigol yw sicrhau ansawdd digwyddiadau difrifol sydd wedi digwydd ers 01 Hydref 2018.

Dechreuodd y gwaith o sicrhau ansawdd yr achosion diweddar hyn ar 16 Medi. Roedd y mwyafrif o'r ymchwiliadau a gafodd eu hasesu yn dangos cysylltiadau amlddisgyblaethol da ac ymgysylltu da â theuluoedd. Roedd tystiolaeth o ddysgu cadarn yn rhai o'r achosion yn ôl y cynlluniau gweithredu. Ond, roedd cwmpas yr asesiad rhagarweiniol yn gyfyngedig oherwydd nifer yr achosion oedd heb eu datrys. Ar y sail honno, nid oedd modd cwblhau'r broses a bydd asesiad pellach yn cael ei gynnal maes o law.

5.4 HUNANATGYFEIRIADAU

Mae'n amlwg y bydd angen adolygu'r achosion i gyd, ond ni fydd angen cynnal adolygiad clinigol llawn o bob un ohonynt. Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnig ffordd ymlaen ar gyfer bob achos unigol. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Panel i gytuno arnynt.

Heb ystyried a fydd yr achosion yn addas ar gyfer adolygiad clinigol, bydd y Panel yn parhau i fonitro bob achos unigol i sicrhau, lle bynnag y bo modd, y ceir ateb boddhaol sy'n rhoi sylw i anghenion y merched a'r teuluoedd sy'n gysylltiedig.


Mae'r Panel yn deall bod y broses brysbennu ar gyfer hunanatgyfeiriadau yn agos at gael ei chwblhau ac yn disgwyl cael diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Panel ar 21 Hydref 2019. Cyn gynted ag y byddwn yn gwybod beth yw canlyniad y broses brysbennu, byddwn yn cysylltu â'r merched a'r teuluoedd sy'n gysylltiedig i drafod a chytuno ar ffordd ymlaen.

6 FFRAMWAITH SICRHAU PERFFORMIAD

Drwy gyfres o gyfarfodydd, a arweiniodd at weithdy amlasiantaeth ar 12 Awst 2019, cytunodd y Panel, y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru rhyngddynt ar Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd y Fframwaith yn gweithredu fel sail ar gyfer adrodd yn ôl i'r Gweinidog yn y dyfodol ac yn darparu'r sail ar gyfer trefniadau gwella a rheoli perfformiad mewnol y Bwrdd Iechyd drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg y Bwrdd Iechyd.

Ceir amlinelliad o'r fframwaith yn y diagram isod. Mae fersiwn fwy ynghlwm yn *Atodiad D*.



Yr egwyddor sy'n ategu'r fframwaith yw y bydd y Panel yn defnyddio'r un wybodaeth am berfformiad i geisio sicrwydd ag y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei defnyddio i reoli'r ddarpariaeth weithredol o wasanaethau mamolaeth a'i gwella'n barhaus ac i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth.

Bydd llawer o'r wybodaeth am berfformiad sydd ei hangen i lenwi'r fframwaith yn dod o Ddangosfwrdd Perfformiad a Llywodraethu Glinigol Gwasanaethau Mamolaeth presennol y Bwrdd Iechyd sy'n cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y cyfarfod monitro gwasanaethau mamolaeth wythnosol rhwng y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru. Lle ceir bylchau, er enghraifft yng nghyswllt profiad cleifion, bydd mesurau newydd yn cael eu datblygu.

Bydd elfen sicrwydd y fframwaith yn defnyddio dull matrices sy'n seiliedig ar bum lefel datblygiad i ddangos i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd mewn tri pharth, drwy geisio ateb tri chwestiwn allweddol, sef-

- A ydi'r gwasanaethau yn ddiogel ac yn effeithiol?
- A ydynt yn canolbwyntio ar ferched a theuluoedd ac yn cael eu harwain yn dda?
- A ydynt yn cael eu rheoli a'u harwain yn dda?

Bydd yr atebion hyn wedyn yn cael eu defnyddio i ateb dau gwestiwn arall, sef:-

- A ydi gwasanaethau yn gwella?
- A ydi'r gwelliannau hynny'n gynaliadwy?

Bydd pob un o barthau'r fframwaith yn cael ei lenwi gan gyfres o ddangosyddion perfformiad ansoddol a meintiol a bydd cyfres o gerrig milltir ac elfennau allweddol i'w cyflawni yn cael eu cysoni â'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth.

Mae'r fframwaith yn gyson â'r dull y mae AGIC yn ei ddefnyddio ac yn darparu llwybr clir rhwng mecanweithiau sicrwydd y Panel a'r gwaith arolygu thematig y mae'r Arolygiaeth yn ei wneud. Bydd yn darparu ffordd syml ond effeithiol o adrodd ar gynnydd ac yn osgoi defnyddio gormod ar ystadegau a systemau goleuadau traffig.

Bydd y Panel yn ychwanegu at y dystiolaeth a geir drwy'r Fframwaith drwy gynnal ymweliadau sicrwydd bob mis i brofi'r dystiolaeth o gynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei darparu. Bydd yr wybodaeth yn cael ei thriongli â gwybodaeth o elfennau eraill o'r broses ymyrryd ynghyd â'r cynnydd o ran cyflawni rhaglen datblygu corfforaethol y Bwrdd Iechyd er mwyn cael darlun clir sy'n dangos i ba raddau y mae gwasanaethau yn gwella ac y mae argymhellion y Colegau Brenhinol yn cael eu rhoi ar waith.

Newydd ddechrau cael ei ddatblygu y mae'r fframwaith sicrhau perfformiad. Ond, rhagwelir y bydd wedi'i lenwi i gyd erbyn yr amser y bydd y Panel yn rhoi ei adroddiad ym mis Rhagfyr a bydd llinell sylfaen wedi'i datblygu a fydd yn hwyluso'r gwaith o asesu a monitro cynnydd wrth symud ymlaen. Mae'r adroddiad hwn yn fwy o adroddiad naratif ar y cynnydd a fu er ei fod yn canolbwyntio'n benodol ar asesu'r sylfaen dystiolaeth i ddangos cyflawniad yn erbyn yr un ar ddeg o argymhellion 'gwneud yn ddiogel' yn adolygiad yr RCOG. Rydym yn edrych yn fanylach ar hyn yn **adran 8**.

7 YMATEB Y BWRDD IECHYD

Yn ystod camau cynnar yr ymyriad, roedd y Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn bendant i sefydlu fframwaith i ymateb i'r argymhellion yn adolygiad yr RCOG.

Lluniwyd y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a sefydlwyd strwythur ffrydiau gwaith dan arweiniad Cyfarwyddwr i'w gyflawni. Penodwyd y Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion newydd yn Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a rhoddwyd fframwaith rheoli rhaglen ar waith. Mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol wedi rhoi arweiniad modelu amlwg a chadarn, ac mae hwn wedi dechrau cael effaith ar brofiad cleifion ac ar ymddygiad y staff, fel y mae arolygon cleifion fwy a mwy cadarnhaol yn dangos.

Crëwyd perthynas weithio adeiladol rhwng y Panel a'r Uwch Swyddog Cyfrifol sydd wedi galluogi gwneud cynnydd yn gynnar o ran sefydlu'r prosesau busnes sy'n sail i'r ymyriad.

Roedd y Panel a'r Bwrdd wedi cyfarfod ddiwedd Mehefin 2019 a chytunwyd bod angen dull darparu ar lefel uchel i sicrhau bod y gwelliannau i'r gwasanaethau mamolaeth yn cael eu cyflawni yng nghyd-destun cynllun datblygu sefydliadol ehangach oedd yn mynd i'r afael â rhai o'r ffactorau sydd wrth wraidd y sefyllfa. Er enghraifft, ymddygiad a diwylliant y sefydliad, llywodraethu clinigol, ymgysylltu â chleifion a rheoli pryderon.

7.1 AMSERLEN Y CYNNYDD

Mae peth cynnydd wedi bod o ran cyflawni yn erbyn yr argymhellion gyda'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth ac roedd arwyddion bod yr ad-drefnu a fu ar y gwasanaeth ym mis Mawrth, ynghyd â chyflwyno arweinwyr newydd ar lefel adrannau ac ar lefel y sefydliad, yn dechrau cael effaith.

Er hynny, o ddechrau mis Gorffennaf ymlaen, roedd cyflymder y cynnydd wedi dechrau arafu, yn bennaf oherwydd nad oedd yr adnoddau oedd eu hangen i gyflawni'r Cynllun yn eu lle. Nid oedd nifer o ddarnau pwysig o'r gwaith paratoi, er enghraifft creu Cronfa Ddata Merched a Theuluoedd a datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth, wedi'u cyflawni o fewn yr amserlen a gytunwyd. Codwyd y mater o golli momentwm ar lefel y Prif Swyddog Gweithredol ac ar lefel y Bwrdd a gwnaed ymdrech lew i gael pethau'n ôl ar y trywydd iawn.

Yn dilyn y problemau a gafwyd yn ystod mis Gorffennaf o ran cyflymder ac effaith y cynnydd, at ei gilydd, mae mis Awst a mis Medi wedi bod yn fisoedd llawer mwy cadarnhaol. I raddau helaeth, y rheswm am hyn yw y llwyddwyd i sicrhau nifer o

benodiadau allweddol - yn bennaf, Cyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Rheolwr Busnes ar gyfer y Panel.

Roedd y ddau wedi dechrau ar eu gwaith o ddifrif ganol mis Awst. Ers hynny mae pethau wedi gwella'n sylweddol o ran cyflymder y cyflawni ac mae nifer o ddatblygiadau pwysig wedi digwydd, sef, yn anad dim:-

- cytunwyd ar Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig amlinellol ac mae hwn nawr yn cael ei ddatblygu ymhellach, gan gynnwys cwblhau'r matrices aeddfedrwydd a llenwi'r parthau â metrigau ac elfennau allweddol i'w cyflawni;
- mae trefniadau'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth ac, yn benodol, y strwythur ffrydiau gwaith sy'n ei ategu, wedi cael eu hadolygu a'u gwella er mwyn iddynt fod yn gyson â'r Fframwaith;
- cytunwyd ar broses fras a fydd yn galluogi'r Panel i gael sicrwydd am gyflawniad y cynllun drwy gyfres o 'ymweliadau gwirio cydweithredol' a drefnir bob mis;
- mae ymrwymiad wedi'i wneud y bydd cynlluniau gweithredu CAMPUS, ynghyd ag elfennau allweddol i'w cyflawni, targedau a cherrig milltir clir newydd yn cael eu pennu a'u blaenoriaethu ar gyfer gweddill y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth o fewn y chwech i wyth wythnos nesaf;
- cynhaliwyd sgysiau pwrpasol a fydd yn hwyluso cynnydd gyda materion hirsefydlog, gan gynnwys y Protocol Rhannu Gwybodaeth, y Gronfa Ddata Merched a Theuluoedd a datblygu cynllun mapio ar gyfer hunanatgyfeiriadau a threfniadau cymorth cysylltiedig ar gyfer y broses adolygiadau clinigol;
- mae arwyddion bod y Bwrdd Iechyd yn dechrau deall a chymryd perchnogaeth ar y ffrwd waith ymgysylltu a chyfathrebu;

Mae penodi Cyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Mamolaeth wedi bod yn ddatblygiad pwysig ac wedi arwain at 'newid gêr' amlwg, nid yn unig o ran cyflymder ac effaith y cyflawni ond hefyd o ran yr ymdeimlad o eglurder, cydlyniant a disgyblaeth weinyddol ychwanegol sydd yn y broses. Er bod llawer i'w wneud eto a bod angen gwneud cryn gynnydd o hyd, mae'r arwyddion yn galonogol ac mae'n galondid gweld beth mae'r Cyfarwyddwr wedi'i gyflawni hyd yma.

Un datblygiad cadarnhaol a welwyd ym mis Awst oedd cynnwys cyfarfod misol interim rhwng y Prif Swyddog Cyfrifol, y Cyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, Cadeirydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth, Rheolwr Busnes y Panel hwnnw a Swyddog Arweiniol Llywodraeth Cymru yng nghylch busnes y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth sy'n darparu fforwm ar gyfer cynllunio'r cyfarfod misol ffurfiol a chytuno ar flaenoriaethau. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn gynnar ym mis Medi pan gafwyd cytundeb clir ynghylch beth oedd y blaenoriaethau er mwyn paratoi ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Un o'r blaenoriaethau a ddeilliodd o'r cyfarfod hwnnw oedd bod angen datblygu dull seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y broses sicrhau, gan ddechrau drwy wneud yr un ar ddeg argymhelliad 'gwneud yn ddiogel' yn flaenoriaeth ddiamod.

7.2 SYLFEINI AR GYFER GWELLA

Mae'n amlwg bod gennym lawer o ffordd i fynd cyn y gallwn ddibynnu ar broses sicrhau systematig fel sail ar gyfer adrodd yn ôl i'r Gweinidog. Serch hynny, mae yna 'egin-welliannau' eraill sy'n awgrymu, er nad oes tystiolaeth bendant ohonynt eto, bod gwasanaethau mamolaeth yn symud i'r cyfeiriad iawn. Mae'r 'egin-welliannau' hyn yn cynnwys y canlynol:-

- gwelliannau parhaus ym mhrosesau adborth cleifion y Bwrdd Iechyd sy'n dangos lefelau bodlonrwydd da a llai o sylwadau negyddol am agwedd ac ymddygiad staff, yn arbennig yn ystod y nos;
- adolygiad mwy ffafriol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) o ran yr amgylchedd hyfforddi, er bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd.¹

Ar ben y gwelliannau amlwg oedd wedi digwydd yn y rhaglen rheoli a gwella, mae nifer o gamau sylfaenol eraill pwysig wedi cael eu rhoi ar waith sy'n golygu bod y sylfeini sy'n angenrheidiol i gynnal gwelliant yn y tymor hir yn cael eu datblygu, er enghraifft:-

- penodwyd Cyfarwyddwr a Rheolwr Gwasanaeth parhaol ac mae rôl y Pennaeth Bydwreigiaeth wedi cael ei hehangu a'i hailhysbysebu fel swydd Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth;
- penodwyd Cyfarwyddwr Meddygol newydd a chynhaliwyd cyfarfod ag arweinwyr Obstetreg a Bydwreigiaeth y Panel. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at arweinyddiaeth feddygol well yn y broses wella;
- mae cynllun datblygu sefydliadol ehangach y Prif Swyddog Gweithredol dros dro wedi dechrau ymffurfio ac mae nifer o ddatblygiadau cynnar fel Rhaglen Datblygu'r Bwrdd, y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Weithredol a'r Rhaglen 'Gadewch inni Siarad' yn dechrau dwyn ffrwyth.

¹ Diwygiwyd yr adroddiad cyhoeddedig gwreiddiol er mwyn dileu cyfeiriad anghywir ym mharagraff 7.2 a oedd yn dweud mai'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth oedd yn gyfrifol am y sylwadau ynglŷn â'r amgylchedd hyfforddi ar gyfer bydwreagedd. Er bod y cyfeiriad hwn yn seiliedig ar ffeithiau, nid oedd yn gywir priodoli'r sylwadau i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Gorbwysleisiwyd hefyd natur y broses y deilliodd y sylwadau ohoni drwy ei galw yn 'adolygiad'. Byddai disgrifio'r broses honno fel cyfarfod i fonitro cynnydd yn fwy cywir.

7.3 RHWYSTRAU I LWYDDIANT

Gyda hyn yn gefndir, mae nifer o systemau a phrosesau sefydliadol yn dal i achosi problemau. Os na lwyddir i fynd i'r afael â'r rhain, byddant yn parhau i gael effaith anfanteisiol ar gyflymder a chynaliadwyedd y cynnydd yn y gwasanaethau mamolaeth. Nid y lleiaf o'r rhain yw gallu a chapasiti'r sefydliad i reoli adborth cleifion yn effeithiol ac i ymateb mewn ffordd amserol i bryderon a chwynion gan gleifion a theuluoedd.

Dros y mis diwethaf, drwy'r gwaith ymgysylltu y mae Arweinydd Ymgysylltu'r Panel wedi bod yn ei gefnogi a drwy driongli gwaith y Panel â chanfyddiadau gwaith yr Uned Gyflawni, mae wedi dod yn fwyfwy clir bod diffygion sylweddol yn y maes hwn. Mae'r problemau hyn yn rhwystro cynnydd o ran gwella gwasanaethau mamolaeth ac mae angen mynd i'r afael â nhw fel mater o frys. I fod yn deg, mae'r Prif Swyddog Gweithredol dros dro eisoes wedi cydnabod hyn ac mae wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ymateb corfforaethol i'r sefyllfa fel rhan o adolygiad ehangach o gyfathrebu strategol a hyder cleifion a'r cyhoedd.

Mae Cadeirydd y Panel yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Prif Swyddog Gweithredol dros dro i sicrhau cydlyniant rhwng gwella'r gwasanaethau mamolaeth a chynllun datblygu ehangach y sefydliad. Mae swmp sylweddol o waith strategol wedi cychwyn mewn tri maes allweddol, sef:-

- arweinyddiaeth a diwylliant;
- ymddiriedaeth a hyder; ac
- ansawdd a llywodraethu.

Yn anad dim, mae gwaith wedi dechrau o ran creu ymddygiadau a gwerthoedd newydd ar gyfer y sefydliad, gan ddefnyddio dull profedig sydd wedi cael ei fabwysiadu mewn meysydd eraill o fewn y GIG yng Nghymru. Mae'r seilwaith sydd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y rhaglen yn rhan o ymgyrch ehangach ar ran y bwrdd iechyd i wreiddio diwylliant, ymddygiad a model gweithredol newydd yn y sefydliad a fydd yn ysgogi gwelliant ac, yn y pen draw, yn sicrhau bod y gwelliannau hynny'n gynaliadwy. Mae hyn wedi'i ategu gan raglenni datblygu sydd â'r nod o gryfhau gallu'r sefydliad fwy fyth wrth symud ymlaen. Mae'n ymddangos bod mwy o bwyslais erbyn hyn ar ymgysylltu â staff a'r cyhoedd a bod mwy o awydd i gael diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw sy'n symudiad amlwg oddi wrth ddiwylliant mwy cosbedigol y gorffennol.

8 ASESU CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R CYNLLUN GWELLA GWASANAETHAU MAMOLAETH

Y tro nesaf y bydd y Panel yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog ym mis Rhagfyr, y bwriad yw sicrhau bod tri pharth y Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig wedi'u llenwi â metrigau ac elfennau allweddol i'w cyflawni a bod y metrics aeddfedrwydd sy'n ei ategu wedi cael ei ddatblygu a'i roi ar brawf. Felly, rhagwelir y bydd modd rhoi asesiad gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r cynnydd y mae'r Bwrdd lechyd wedi'i wneud mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth.

Yn y cyfamser, y teimlad oedd ei bod yn bwysig, bedwar mis ar ôl rhoi'r ymyriad ar waith, darparu asesiad gwrthrychol o'r cynnydd a fu mewn perthynas â'r Cynllun, er y bydd yn fwy o adroddiad naratif nag y byddai'r Panel wedi'i hoffi ar hyn o bryd.

Yn y mis diwethaf, mae'r Panel a'r Bwrdd lechyd wedi gwneud ymdrech sylweddol i sicrhau bod ganddynt y dystiolaeth angenrheidiol i gynnig sicrwydd fod yr un ar ddeg o argymhellion 'gwneud yn ddiogel' a nodwyd yn adolygiad yr RCOG wedi cael sylw a bod y canlyniadau wedi'u gwreiddio mewn ymarfer gweithredol.

8.1 UN AR DDEG O ARGYMHELLION 'GWNEUD YN DDIOGEL'

Mae'r un ar ddeg o argymhellion 'gwneud yn ddiogel' wedi'u rhestru yn y tabl yn *Atodiad E*. Ynddo hefyd rydym yn asesu, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, a ellir ystyried bod y mater wedi cael yr holl sylw a oedd yn ofynnol a bod y canlyniadau wedi'u gwreiddio yn ymarfer gweithredol y sefydliad neu a yw'n parhau i fod yn waith ar y gweill. Mae'r tabl hefyd yn dangos pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer yr asesiad a ble y mae'r camau a gymerwyd, os nad ydynt wedi'u cyflawni'n llawn, yn dangos beth arall y mae angen ei wneud cyn y gellir cofnodi'r mater fel un sydd wedi'i gwblhau yn llawn.

Gellir gweld o'r tabl bod y Bwrdd lechyd o'r farn bod dystiolaeth bendant sy'n dangos yr ystyrir bod wyth o'r un mater ar ddeg wedi cael eu cyflawni a bod tri yn parhau i fod yn waith ar y gweill. Rhoddwyd gwybod i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg y Bwrdd lechyd am y sefyllfa hon drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth ar 05 Medi 2019. Roedd y Pwyllgor wedi craffu ar y dystiolaeth oedd ar gael ac wedi dod i'r casgliad ei fod wedi'i sicrhau bod yr adroddiad roedd wedi'i gael yn asesiad rhesymol o'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Yng nghyswllt y materion oedd yn parhau i fod yn waith ar y gweill, roedd y Pwyllgor yn fodlon ei fod wedi cael eglurhad rhesymol ynglŷn â pham mai felly yr oedd hi a bod camau lliniaru ar waith i sicrhau bod gwasanaethau diogel yn cael eu darparu.

O ran mater rhif chwech (**diffyg ymwybyddiaeth a mynediad o ran canllawiau, protocolau, sbardunau ac uwchgyfeirio**) mae tystiolaeth bod y canllawiau, y protocolau, y sbardunau a'r mesurau uwchgyfeirio ar gael yn rhwydd ac y tynnwyd sylw'r staff atynt. Ond, er bod y sefyllfa yn well o lawer, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn hollol sicr eu bod yn cael eu rhoi ar waith fel mater o drefn gan bob aelod o staff. Felly, mae mwy o waith i'w wneud. Mae tystiolaeth bod dull systematig o fynd i'r afael â'r mater hwn ar waith. Er enghraifft, bod rheolwyr a goruchwylwyr yn adolygu'r mater yn rheolaidd, cynlluniau gweithredu ac ymyrraeth gan reolwyr. Rhagwelir y bydd digon o dystiolaeth i gofnodi hyn fel mater sydd wedi cael sylw llawn erbyn yr amser y bydd y Panel yn rhoi ei adroddiad ym mis Rhagfyr,

Mae mater rhif deg (**lefelau staffio bydwreigiaeth**) yn parhau i fod yn waith ar y gweill gan na fydd yr adolygiad Birthrate Plus a gomisiynwyd i benderfynu ar lefelau staffio diogel gofynnol yn adrodd ar ei ganfyddiadau tan ganol Hydref 2019. Ond, yn y cyfamser, cytunwyd ar lefelau staffio gofynnol dros dro â Llywodraeth Cymru ac mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro'r rhain mewn amser real fel mater o drefn drwy ddangosfwrdd perfformiad y gwasanaethau mamolaeth ac, o safbwynt llywodraethu, drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg. Mae craffu'n digwydd yn allanol hefyd ar ffurf y cyfarfod monitro gwasanaethau mamolaeth wythnosol gyda Llywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gael sicrwydd bod y lefelau staffio a gytunwyd yn cael eu gweithredu a lle ceir diffygion, mae'r mesurau uwchgyfeirio a gytunwyd yn cael eu rhoi ar waith.

Mae mater rhif un ar ddeg (**diwylliant y gwasanaeth**) yn parhau i fod yn waith ar y gweill ac yn debygol o aros felly hyd y gellir rhagweld; mae'n afrealistig disgwyl bod modd datrys problemau hirsefydlog cysylltiedig â diwylliant, agwedd ac ymddygiad mewn ychydig fisoedd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi nifer o gamau ar waith ar lefel adran ac ar lefel y sefydliad i ddatblygu amgylchedd diwylliannol mwy priodol ond bydd angen amser i gynllunio, datblygu a chyflawni'r rhain a byddant yn cymryd mwy o amser fyth i gael effaith. Mae arwyddion bod y camau a gymerwyd hyd yma yn dechrau cael dylanwad. Er enghraifft, mae'r arolygon wythnosol sy'n asesu profiad merched sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dangos gwelliannau cyson erbyn hyn o ran lefel bodlonrwydd ac mae gostyngiad amlwg wedi bod mewn adborth negyddol. Serch hynny, mae'n rhy gynnar eto i awgrymu bod y problemau diwylliannol a ddisgrifir yn adolygiad yr RCOG wedi cael eu datrys. A dweud y gwir, mae sgysiau gyda staff yn awgrymu bod ffordd bell i fynd o hyd.

8.2 'YMWELIADAU GWIRIO CYDWEITHREDOL'

Mae'r Panel yn cynnal 'ymweliadau gwirio cydweithredol' bob mis o fewn y Bwrdd Iechyd fel rhan o'r broses o driongli gwybodaeth galed a meddal a data am wasanaethau newyddenedigol a mamolaeth. Dechreuodd yr ymweliadau ar ddydd Mawrth 17 Medi 2019, gan roi cyfle i'r Panel arsylwi ar wasanaethau a thimau wrth

eu gwaith a galluogi Aelodau'r Panel i gynnal eu hasesiad eu hunain o'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth.

Bydd yr 'ymweliadau gwirio cydweithredol' yn adlewyrchu tri pharth y Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig. Sef, Gofal Diogel ac Effeithiol, Ansawdd Profiad Merched a Theuluoedd ac Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae'r ymweliadau hefyd yn defnyddio pedair thema pecyn '15 Steps for Maternity' NHS England - pecyn sy'n cael ei ddefnyddio'n eang yn y GIG. Mae'r pecyn i'w weld [yma](#). Dyma'r themâu:-

- croesawgar a llawn gwybodaeth;
- diogel a glân;
- cyfeillgar a phersonol;
- trefnus a digynnwrf.

Roedd yr ymweliad cyntaf, o anghenraid, yn eang ac yn cwmpasu'r Uned Cyn Geni - yr Uned Asesu Dydd, Brysbennu Cyn Geni a'r Ward Eni. Roedd y Panel wedi targedu rhai meysydd allweddol yn yr un ar ddeg o argymhellion 'gwneud yn ddiogel' yn adolygiad yr RCOG oedd yn galw am sylw ar unwaith er mwyn profi'r sicrwydd a gafwyd gan y Bwrdd Iechyd ynghylch y rhain. Mae'r canfyddiadau cryno i'w gweld yn *Atodiad F*. Yn dilyn yr ymweliad, mae'r Panel yn teimlo'n weddol sicr bod asesiad y Bwrdd Iechyd o'r cynnydd yn gywir. Bydd cyfle i gadarnhau'r sicrwydd hwn yn bendant mewn ymweliadau a chyfarfodydd ffurfiol yn y dyfodol.

Bydd ymweliadau dilynol yn targedu meysydd allweddol y mae aelodau'r Panel am brofi'r sicrwydd a roddwyd neu er mwyn cynnal 'ymchwiliad trylwyr' i feysydd er mwyn deall beth sy'n llesteirio cynnydd. Byddant hefyd yn cynnwys ffocws cynyddol ar brofiadau merched a theuluoedd yn ogystal ag ymgysylltu â staff, er mwyn profi'r diwylliant a 'sut mae pethau'n teimlo yma'. Yn benodol, bydd cyfleoedd i ferched, teuluoedd ac aelodau o staff siarad â'r Panel.

8.3 CYFLAWNIAD CYFFREDINOL

Er bod yr un ar ddeg o argymhellion 'gwneud yn ddiogel' sy'n galw am sylw ar unwaith yn amlwg yn flaenoriaeth, roedd y Panel yn teimlo ei bod yn bwysig rhoi rhyw syniad o'r sefyllfa gyffredinol o ran cyflawni yn erbyn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth.

Mae'r cynllun yn cynnwys 79 cam gweithredu i gyd gyda'i gilydd. O'r rhain, mae 70 yn deillio o'r argymhellion yn adolygiad yr RCOG ac mae tri ohonynt yn gamau a nodwyd drwy hunanasesiad o arweinyddiaeth a llywodraethu ar lefel y Bwrdd a gynhaliwyd ar ôl cyhoeddi'r adolygiad. Mae'r chwe cham gweithredu sydd ar ôl yn

deillio o asesiad y Bwrdd Iechyd o'r camau y mae angen eu cymryd i fodloni egwyddorion *Gweledigaeth Cymru gyfan ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth* a gyhoeddwyd gan y Gweinidog yn ddiweddar.

Mae 76 o'r 79 cam gweithredu wedi cael eu neilltuo i un o'r tri Grŵp Prosiect y mae'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth wedi'u sefydlu. Mae'r tri sydd yn weddill yn cael eu rheoli ar lefel y Bwrdd. Dywedodd y Bwrdd Iechyd bod gwaith wedi dechrau ar 20 Medi 2019 i gyflawni pob un o'r 79 argymhelliad.

Mae'r siartiau yn *Atodiad G* yn dangos cyfran y camau gweithredu sydd wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi'u cwblhau a'r rhai sy'n parhau i fod yn waith ar y gweill. Mae'r siartiau hefyd yn dangos sut mae'r camau gweithredu wedi cael eu dosbarthu o fewn amrywiol ffrydiau gwaith y Prosiect.

Mae hyn yn awgrymu bod 24 (30%) o'r 79 argymhelliad wedi cael eu cofnodi fel rhai a gyflawnwyd a bod 55 (70%) yn parhau i fod yn waith ar y gweill. Mae'r 24 cam gweithredu a gwblhawyd yn cynnwys wyth o'r un ar ddeg o argymhellion 'gwneud yn ddiogel' a gofnodwyd fel rhai a gwblhawyd.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Bwrdd Iechyd, hyd yma, ac eithrio yng nghyswllt yr un ar ddeg o argymhellion 'gwneud yn ddiogel', wedi cwblhau'r gwaith sicrhau sy'n ofynnol i ddangos bod y camau gweithredu sydd ar ôl wedi cael eu cyflawni a'u gwreiddio mewn ymarfer gweithredol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn yr hydref a bydd asesiad sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth ar gael erbyn yr adeg y bydd y Panel yn rhoi adroddiad ym mis Rhagfyr.

Darparwyd y siartiau yn *Atodiad G* ar y cam hwn i ddangos yn fras pa gynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud o ran rhoi sylw i'r argymhellion ac ni ddylid eu hystyried yn ddatganiad pendant o'r hyn y gellir rhoi sicrwydd diamod yn ei gylch ar hyn o bryd.

9 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae pedwar mis wedi mynd heibio ers i'r Gweinidog gyhoeddi ei fod yn gwneud gwasanaethau mamolaeth yng nghyn fwrdd iechyd Cwm Taf yn destun mesurau arbennig.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyrraeth y Gweinidog ac, ar ôl dechrau araf ac, ar adegau, ansicr, mae nawr yn dechrau gwneud cynnydd o ran cyflawni mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn adolygiad yr RCOG ac adolygiadau eraill cysylltiedig.

Mae'r sylfeini ar gyfer gwella erbyn hyn yn eu lle i raddau helaeth. Ond, mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd ac mae angen cynyddu cyflymder y cynnydd fesul cam fel y bydd y capasiti i gyflawni gwelliannau ar gael.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cydweithio â'r Panel i roi'r systemau a'r prosesau angenrheidiol yn eu lle fel bod modd monitro ac asesu cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth. Cytunwyd ar Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn gweithredu fel sail ar gyfer adroddiadau i'r Gweinidog yn y dyfodol.

Bydd hyn yn hwyluso monitro canlyniadau gwell dros amser ac yn darparu'r sail ar gyfer dwyn cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y gwasanaethau mamolaeth sy'n cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd a'r rheini sy'n cael eu darparu mewn ardaloedd eraill. Rhagwelir y bydd y Fframwaith wedi cael ei lenwi â metrigau ac elfennau allweddol i'w cyflawni erbyn Adroddiad Chwarterol dilynol y Panel. Bydd llinell sylfaen wedi cael ei sefydlu a fydd yn hwyluso asesu cynnydd ar sail y dystiolaeth a chanlyniadau wrth symud ymlaen.

Yn nhermau adolygiadau clinigol annibynnol, cytunwyd ar strategaeth a chynhaliwyd ymarfer cwmpasu ar gam cyntaf y broses (golwg yn ôl 2016-2018) oedd yn fwy eang a manwl na'r ymarfer yr oedd tîm adolygu'r RCOG wedi'i gynnig yn wreiddiol.

Gyda chymorth y Colegau Brenhinol, mae'r timau amlddisgyblaethol sydd eu hangen i gynnal yr adolygiadau clinigol yn cael eu recriwtio a rhagwelir y byddant yn dechrau ar eu gwaith yn yr hydref. Yn y cyfamser, mae clinigwyr y Panel wedi dechrau ar y broses o sicrhau ansawdd digwyddiadau difrifol y rhoddwyd gwybod amdanynt ers mis Hydref 2018. Er bod rhai arwyddion calonogol o gynnydd, roedd yr adolygiad yn amhendant ac mae angen gwneud mwy o waith.

O ran ymgysylltu â merched, teuluoedd a staff, mae swmp sylweddol o waith paratoi wedi cael ei wneud sydd bellach yn symud tuag at gael ei roi ar waith. Lluniwyd strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu, mae'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth wedi cael ei adfywio gyda Chadeirydd Lleyg a mwy o aelodau o blith

defnyddwyr y gwasanaeth, ac mae bwriad i gynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu a fydd yn dechrau ym mis Tachwedd, gan ddod â merched a theuluoedd a staff at ei gilydd am y tro cyntaf i gydgyhyrchu a gwella gwasanaethau mamolaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd perchnogaeth ar y gwaith ymgysylltu a chyfathrebu ac mae Arweinydd Ymgysylltu'r Panel yn cymryd cam yn ôl i rôl gynghori. Er hynny, mae bylchau sylweddol o hyd yng ngallu a chapasiti'r Bwrdd Iechyd i ymgymryd yn effeithiol â gwaith ymgysylltu a chleifion ac i reoli cwynion a phryderon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi sylw i'r diffygion hyn fel rhan o gynllun datblygu ehangach y sefydliad.

9.1 Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Yn gryno, dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd:-

- erbyn hyn, mae gwell dealltwriaeth o'r broblem ac mae'r pethau sydd wrth wraidd perfformiad gwael ym maes gwasanaethau mamolaeth wedi cael eu canfod. Mae llawer o'r gwaith y mae angen ei wneud i ymdrin â'r problemau hyn ar lefel adrannau ac ar lefel y sefydliad yn y camau cynllunio cynnar o hyd;
- gyda chymorth y Panel ac eraill oedd ynghlwm â'r broses ymyrryd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sylweddoli bod yr heriau y mae'n eu hwynebu, o bosib, yn fwy eang, dwys a sylfaenol nag yr oedd adolygiad yr RCOG wedi'i nodi. Sefydlwyd proses ddatblygu sefydliadol ehangach a fydd yn 'amlapio'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth fwy a mwy i sicrhau bod y cynnydd sy'n cael ei wneud yn gynaliadwy yn y tymor hwy;
- mae'r sylfeini ar gyfer gwella gwasanaethau mamolaeth, gan gynnwys yr arweiniad iawn, y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, dull cyflawni a chynllun datblygu sefydliadol ehangach bellach yn eu lle. Ond, mae bylchau o hyd, er enghraifft, mae angen penodi Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, recriwtio mwy o adnoddau rheoli ar gyfer y rhaglen a datblygu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth ymhellach, ac mae'r rhain i gyd yn cael sylw;
- yn bwysig, mae tystiolaeth yn awgrymu, gyda lefel rhesymol o sicrwydd, bod un ar ddeg elfen 'gwneud yn ddiogel' y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, wedi cael, neu yn cael, sylw. Yn ogystal, mae 'egin-welliannau' mewn meysydd eraill pwysig - er enghraifft, agwedd ac ymddygiad staff a bodlonrwydd cleifion;
- mae'n galonogol bod y gwaith o ad-drefnu gwasanaethau, ac, yn benodol, cyfuno'r gwasanaeth dan arweiniad ymgynghorydd ag Ysbyty Tywysog Cymru ym mis Mawrth 2019, wedi mynd rhagddo heb unrhyw ganlyniadau negyddol amlwg. Mae'n ymddangos bod yr uno hwn wedi bod yn gatalydd i wella perthnasoedd rhyngddisgyblaethol a ffyrdd gwell o weithio, er enghraifft, yng nghyswllt cyfarfodydd briffio ym maes diogelwch a throsglwyddo cleifion.

Mae ffordd bell iawn i fynd o hyd cyn y bydd holl argymhellion y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth wedi cael eu cyflawni. Er mwyn gwneud hyn, mae angen

cael mwy o allu a chapasiti mewn meysydd allweddol tebyg i reoli rhaglenni, llywodraethu ansawdd a diogelwch, rheoli cwynion a phryderon, ymgysylltu â chleifion a chyfathrebu corfforaethol. Hefyd, mae angen symud yn gynt a sicrhau disgyblaeth well o ran gweinyddu a chydlyniant gwell ar lefel tîm, adran ac ar lefel gorfforaethol.

Er bod arwyddion cynnar bod ymddygiad yn gwella, mae'r adborth a gafwyd gan staff a chleifion yn awgrymu bod angen newid y gwerthoedd a'r diwylliant sydd wrth wraidd y sefydliad o hyd fel y dangosodd yr adroddiad *Gwranddo ar Farn Menywod a Theuluoedd*.

Mae'r problemau a gafodd eu hamlygu yn adolygiad yr RCOG yn rhai strwythurol sy'n hirsefydlog ac sydd wedi gwreiddio'n ddwfn. Bydd yn cymryd amser i'w datrys ac ni fydd y canlyniadau i'w gweld ar unwaith. Fel enghraifft o hyn, roedd siwrnai Morecambe Bay o 'fesurau arbennig' i 'dda' - sef y nod a rennir ar gyfer y Bwrdd Iechyd - wedi cymryd chwe blynedd i'w chwblhau.

I grynhoi, er bod arwyddion calonogol o gynnydd a bod y sylfeini ar gyfer gwella yn eu lle i raddau helaeth erbyn hyn, mae'n rhy gynnar i roi'r sicrwydd y mae'r Gweinidog a merched a theuluoedd cyn fwrdd iechyd Cwm Taf ei angen i fod yn hyderus bod yr holl welliannau angenrheidiol wedi cael eu cyflawni i sicrhau gwasanaethau diogel, effeithiol ac ymatebol sy'n gynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar gleifion ac sy'n cael eu rheoli a'u harwain yn dda.

10 Y CAMAU NESAF

Y tro nesaf y mae'r Panel i fod i roi adroddiad ffurfiol i'r Gweinidog yw tua diwedd mis Rhagfyr 2019. Mae'r broses arolygu wrthi'n sefydlu ei hun ac mae'r sylfeini ar gyfer gwella bellach yn eu lle i raddau helaeth. Ar ben hyn, mae'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwelliant yn haws eu cael erbyn hyn ac mae'r gwasanaethau mamolaeth yn dod yn rhan o gynllun datblygu ehangach y sefydliad. O gofio'r ffactorau hyn, rhagwelir y bydd y cynnydd yn cyflymu dros y tri mis nesaf.

Rhagwelir hefyd y bydd adroddiad nesaf y Panel yn fwy seiliedig ar dystiolaeth ac yn dibynnu llai ar naratif i ddangos cynnydd. Bydd cyfle hefyd i driongli asesiad y Panel o'r cynnydd â chanfyddiadau adolygiadau y mae cyrff eraill yn eu cynnal, er enghraifft, yr Adolygiad o Ansawdd a Llywodraethu Diogelwch sy'n cael ei gynnal ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC, gwaith arolygu ychwanegol y mae AGIC yn ei wneud ac asesiadau gan randdeiliaid eraill, gan gynnwys yr Uned Gyflawni, CHC ac AaGIC.

Ar sail y sefyllfa bresennol a'r gwaith sydd yn yr arfaeth, y gobaith yw y bydd y Panel yn gallu adrodd ar y prif ddatblygiadau canlynol erbyn diwedd Rhagfyr 2019:-

- y bydd y bylchau sydd ar ôl o ran arweinyddiaeth (yn arbennig swydd barhaol y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth) wedi'i llenwi ac y bydd yr adnoddau rhaglen sydd eu hangen i gyflawni'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth yn eu lle;
- y bydd mwy o gysylltiad meddygol â'r broses wella yn dilyn penodiadau diweddar y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Clinigol Obstetreg a Gynaecolog;
- bydd y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth wedi cael ei ddatblygu ymhellach, blaenoriaethu gwell o ran camau gweithredu a mwy o eglurder o ran cerrig milltir ac elfennau allweddol i'w cyflawni;
- bydd mwy o gynnydd wedi bod mewn perthynas â'r tri argymhelliad 'gwneud yn ddiogel' sydd heb eu cwblhau yn llawn eto ac, yn benodol, bydd adolygiad Birthrate Plus o lefelau staffio wedi cael ei gwblhau a bydd cynllun gweithredu wedi'i lunio, os oes angen;
- bydd sylfaen dystiolaeth ar gael i hwyluso cynnydd mewn perthynas â gweddill yr argymhellion sydd i gael eu hasesu a darperir sicrwydd mwy pendant;
- bydd y Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig wedi'i ddatblygu ymhellach - bydd y tri pharth wedi'u llenwi â metrigau allweddol ac elfennau allweddol i'w cyflawni. Bydd llinell sylfaen wedi'i sefydlu a fydd yn gweithredu fel sail ar gyfer asesu'r cynnydd wrth symud ymlaen;
- bydd y Bwrdd Iechyd wedi dechrau cyflawni elfennau o'r cynllun datblygu corfforaethol sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bydd gwaith wedi dechrau mewn meysydd sy'n hollbwysig o ran gwella'r gwasanaeth mamolaeth, gan gynnwys arweinyddiaeth, diwylliant a gwerthoedd;

- bydd peth cynnydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â rhai o'r problemau sylfaenol gyda systemau a phrosesau sy'n llesteirio cynnydd ar hyn o bryd, er enghraifft, rheoli cwynion a phryderon a rheoli adborth cleifion;
- bydd Strategaeth Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd yn symud o'r cam cynllunio i'r cam gweithredu a bydd y cyntaf o'r digwyddiadau cymunedol a gynhyrchir ar y cyd gan staff a chleifion wedi cael ei gynnal a'i werthuso;
- o gofio bod gwell dealltwriaeth erbyn hyn o faint o achosion sydd i gael eu hadolygu, mae Llywodraeth Cymru yn dechrau ar y gwaith o gaffael timau adolygu clinigol drwy'r Colegau Brenhinol er mwyn dechrau ar gam cyntaf (golwg yn ôl 2016-2018) y Strategaeth Adolygiadau Clinigol;
- bydd mwy o waith wedi'i wneud yng nghyswllt sicrhau ansawdd digwyddiadau difrifol sydd wedi digwydd ers mis Hydref 2018 gyda golwg ar werthuso gallu a chapasiti'r Bwrdd Iechyd i weithio'n annibynnol yn hyn o beth wrth symud ymlaen.

Mae hon yn agenda heriol sy'n galw am welliant sylweddol o ran cyflymder, disgyblaeth weinyddol a chydlyniant ar lefel leol, adran ac ar lefel gorfforaethol. Fodd bynnag, mae'r Panel yn credu bod gan y Bwrdd Iechyd yr arweinyddiaeth briodol a'r prosesau angenrheidiol yn eu lle bellach i hwyluso hyn ac mae'n edrych ymlaen at y cyfnod nesaf.

11 RHESTR O ATODIADAU

Atodiad A - Cylch Gorchwyl

Atodiad B - Datganiad o Werthoedd

Atodiad C - Cylch Busnes y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth

Atodiad D - Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig

Atodiad E - Crynodeb o'r Dystiolaeth - Un ar ddeg o Argymhellion 'Gwneud yn Ddiogel'

Atodiad F – Themâu Ymweliadau Gwirio Cydweithredol

Atodiad G - Diweddariad ar Gynnydd - Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth

Cylch Gorchwyl

Pwrrpas y Panel Trosolwg Annibynnol

Darparu'r oruchwyliaeth¹ sy'n angenrheidiol i alluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i roi'r argymhellion yn adroddiad y Colegau Brenhinol ar waith mewn modd amserol, agored a thryloyw.

Cylch Gorchwyl

- Sefydlu trefniadau cadarn sy'n rhoi sicrwydd i randdeiliaid bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu'r argymhellion yn adolygiad y Colegau Brenhinol ac argymhellion eraill cysylltiedig. Pennu a chytuno ar gerrig milltir ac elfennau allweddol i'w cyflawni a thracio cynnydd mewn perthynas â'r rhain;
- Sefydlu a chytuno ar broses amlddisgyblaethol annibynnol i gynnal adolygiad clinigol o'r digwyddiadau difrifol yn 2016-2019 y mae'r Colegau Brenhinol wedi'u nodi fel rhai y mae angen ymchwiliad pellach iddynt. Cynnal ymarfer 'golwg yn ôl' i 2010 a sicrhau bod unrhyw rai sydd â phryderon cyfiawn am eu gofal yn cael cyfle i gael adolygiad o'r gofal hwnnw. Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd ac eraill yn gweithredu ar unrhyw wersi i'w dysgu sy'n cael eu hamlygu gan yr adolygiadau hyn;
- Cyngori'r Bwrdd Iechyd ar y camau y mae angen iddo eu cymryd i sefydlu trefniadau ymgysylltu effeithiol sy'n cynnwys cleifion a staff mewn modd gweithredol yn y broses o wella gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth ac adennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y Bwrdd Iechyd;
- Uwchgyfeirio unrhyw faterion neu bryderon ehangach sy'n ymwneud â llywodraethu i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol.
- Rhoi gwybod i'r Gweinidog am unrhyw gamau pellach y mae'r Panel yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu'n ddiogel, yn gynaliadwy ac i safon uchel, ac yn canolbwyntio ar y claf. Dylai hyn gynnwys cyngor ar yr angen am unrhyw adolygiadau annibynnol dilynol, ac amseru'r rheini, a nodi unrhyw wersi pellach ar gyfer y GIG yng Nghymru.

¹ Ystyr y term 'goruchwyliaeth' yw cyfuniad o fesurau sydd wedi'u pennu'n wrthrychol (gan gynnwys gosod targedau, monitro, craffu, herio, gwerthuso sefyllfaoedd yn wrthrychol a rhoi arweiniad, anogaeth a chymorth) sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid (gan gynnwys cleifion, staff a'r cyhoedd) bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r gwelliannau y mae'n ofynnol iddo eu cyflawni.

Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth

Gwerthoedd, Credoau ac Ymddygiad

Mae cylch gorchwyl y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth wedi'i ategu gan set o werthoedd a chredoau craidd sy'n sail i ymddygiad y Panel ac sy'n pennu'r disgwyliadau o ran ymddygiad pobl eraill sy'n rhan o'r trosolwg.

Drwy weithredu fel modelau rôl rydym yn gobeithio hyrwyddo'r mathau o ymddygiad a fydd yn sail sylfaenol i daith y Bwrdd Iechyd at wella.



YN CANOLBWYNTIO AR FERCHED A THEULUOEDD - yn bennaf, diogelwch, ansawdd a phrofiad fydd wrth wraidd ein penderfyniadau, ein hargymhellion a'n gweithredoedd.

GWERTHFAWROGI POBL – rydym yn credu bod gweithlu llawn cymhelliant sy'n ymroi'n briodol ac sy'n cael ei arwain yn dda yn ofyniad sylfaenol er mwyn darparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.


AGORED A THRYLOYW - yn amodol ar gyfyngiadau cyfrinachedd cleifion a diogelu data, byddwn yn gwneud ein gwaith mewn modd agored a thryloyw.

CYNHWYSOL- byddwn yn ymgysylltu â'r merched a'r teuluoedd y mae methiant ar ran y gwasanaeth wedi effeithio arnynt, a byddwn yn eu cynnwys yn weithredol yn y broses trosolwg a gwella.


CYDWEITHREDOL - mewn amgylchedd o graffu a herio cadarn, byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i gael y gorau posibl allan o'r broses wella ac i osgoi biwrocratiaeth a dyblygu ymdrech ac adnoddau diangen.

Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth

Cylch Busnes Misol



Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig



**Cynnydd mewn perthynas â'r Un ar ddeg o Argymhellion 'Gwneud yn Ddiogel'
yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth**

Problem a nodwyd gan yr RCOG	Crynodeb o dystiolaeth a phrosesau monitro'r Bwrdd lechyd	Asesiad y Bwrdd lechyd
1. Diffyg obstetregydd ymgynghorol i gefnogi'r ward eni . Er bod y rota yn dangos bod obstetregydd ar gael, yn aml nid yw'n bresennol ar y ward ac mae'n anodd cysylltu ag ef/hi.	• Galwyr i Ymgynghorwyr • Un Uned Obstetreg gyfun • Mwy o oriau o bresenoldeb obstetregydd yn y ward eni (<i>o 40 awr i 60 awr</i>) • Sampl o gynllun gwaith • Gwirio Datix (dim achosion o beidio â bod ar gael wedi'u cofnodi) • Llety ar y safle i Ymgynghorwyr	Gweithredwyd
2. Mae presenoldeb obstetregydd yn dameidiog ar y ward eni ac mae'n newid yn aml - hyd at 4 gwaith mewn 24 awr.	• Un Uned Obstetreg gyfun • Mwy o oriau o bresenoldeb obstetregydd yn y ward eni (<i>o 40 awr i 60 awr</i>) • Llai o newid - o bedair gwaith i ddwywaith mewn 24 awr • Monitro dalenni trosglwyddo • Cynllunio gwaith	Gweithredwyd
3. Dim digon o gymorth ar gael i feddygon dan hyfforddiant a meddygon graddfa ganol o fewn y gwasanaeth obstetreg ac yn arbennig ar y ward eni.	• Un Uned Obstetreg gyfun • Mwy o oriau preswyl • Tiwtor Coleg penodedig • Cyfarfodydd Myfyrio Obstetreg a Mamolaeth • Cofnod presenoldeb a chamau gweithredu • Taflenni trosglwyddo • Lleisiau hyfforddiant bob mis • Adolygiadau Deoniaeth wedi'u targedu gan AaGIC	Gweithredwyd

4. Mae argaeledd ymgynghorwyr tu allan i oriau yn annerbyniol, gydag amseroedd dod yn ôl o hyd at 45 munud.	• Llety ar y safle i ymgynghorwyr (Fflat bwrpasol ar gyfer yr uned Obstetreg a Gynaecoleg) • Mae argaeledd Ymgynghorwyr yn cael ei fonitro a gellir uwchgyfeirio • Gwirio Datix (dim achosion o beidio â bod ar gael wedi'u cofnodi)	Gweithredwyd
5. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio staff locwm yn aml ar bob gradd ac ym mhob arbenigedd Nid oes rhaglen gynefino effeithiol ar gael i'r staff hyn.	• Rhaglen Gynefino Orfodol wedi cael ei rhoi ar waith • Cyfnod o gysgodi gwaith i staff locwm newydd • Defnyddio staff locwm hirdymor er mwyn sicrhau dilyniant hyd nes y bydd swyddi gwag yn cael eu llenwi • Rhaglenni Cynefino i Gyfarwyddwyr ac i Staff Locwm a ffurflenni adborth • Monitro ar lefel y Gyfarwyddiaeth • Monitro grŵp hyfforddi	Gweithredwyd
6. Diffyg ymwybyddiaeth o ganllawiau, protocolau, sbardunau ac uwchgyfeirio a mynediad atynt. (Nid oedd dim canllawiau ar gael ar gymhlethdodau cyffredin sy'n gallu codi yn ystod beichiogrwydd e.e. cyneclampsia, ac sy'n gallu digwydd yn yr uned ddydd). Mae hyn yn arbennig o berthnasol o gofio pwynt 5 uchod.	• Rhestr Ddiwygiedig o Sbardunau (hefyd ar y System MITS) • Canllawiau wedi'u diweddarau, eu cymeradwyo ac ar gael ar y gyriant a rennir • Gwelliannau i Adroddiadau Datix • Dadansoddiad o dueddiadau Datix • Monitro fforymau llywodraethu	Gwaith sydd ar y Gweill
7. Nid yw diffyg system lywodraethu sy'n	• Strwythur llywodraethu newydd wedi cael ei roi ar waith • Diagram a chofnodion y cyfarfod ar gael	Gweithredwyd

gweithio yn cefnogi ymarfer diogel.		
8. Mae'r arfer o dderbyn babanod newydd-anedig i'r uned newyddenedigol ar safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg wedi 28 wythnos o feichiogrwydd yn groes i'r canllawiau cenedlaethol a dylid rhoi stop ar yr arfer ar unwaith, a mynd yn ôl i'r ffin safonol ar gyfer uned o'r lefel hon, sef 32 wythnos o feichiogrwydd.	• Mae polisi Cymdeithas Meddygaeth Pediatrig Prydain nawr ar waith (i'w ddefnyddio ar unwaith) • Meini prawf ffin hyfywedd • Meini prawf ar gyfer bod yn bresennol yn ystod esgor • Cyfunwyd â'r un Uned Newyddenedigol yn Ysbyty Tywysog Cymru • Adroddiadau Datix a BadgerNet ar gyfer babanod llai na 32 wythnos	Gweithredwyd
9. Mae'n rhaid i obstetregydd ymgynghorol gyda'r sgiliau perthnasol fod yn bresennol yn y clinig cyn geni obstetreg risg uchel ac arwain y clinig hwnnw.	• Cynlluniau gwaith i gael eu newid – cynllun gwaith ar gyfer yr Ymgynghorydd Cyn Geni • Un Ymgynghorydd wedi cael ei neilltuo i'r clinig	Gweithredwyd
10. Nid yw lefelau staffio bydwreigiaeth yn cydymffurfio â chanfyddiadau adolygiad Birthrate plus® yn 2017. Mae angen i'r Bwrdd lechyd fonitro hyn mewn amser real ar lefel uwch i asesu a oes angen defnyddio'r protocolau uwchgyfeirio sydd wedi cael eu sefydlu i sicrhau diogelwch cleifion.	• Monitro lefelau staffio bydwreigiaeth mewn amser real (ynghyd ag uwchgyfeirio i'r bwrdd drwy'r broses sicrhau wythnosol) • Proses recriwtio barhaus • Ailwerthusiad Birthrate Plus (disgwylir y canlyniadau ym mis Hydref 2019) • Monitro aciwtedd yn ddyddiol • Cofnodi ar Datix pan mae'r lefelau staffio yn is na'r lefelau a gytunwyd	Gwaith sydd ar y Gweill
11. Mae diwylliant y gwasanaeth yn parhau i gael ei weld fel diwylliant cosbedigol. Mae staff angen cymorth a	a) Wedi ailddiffinio'r strwythur llywodraethu a'i bwrpas b) Sesiynau ymgysylltu â staff yn cael eu harwain gan y Tîm Gweithredol	Gwaith sydd ar y Gweill

chefnogaeth gan uwch reolwyr ar yr adeg anodd hon.	c) Cynllun Datblygu Sefydliadol i'w roi ar waith - Mwy o waith Datblygu Sefydliadol ac ymgysylltu â staff	
--	---	--

Themâu sy'n dod i'r amlwg yn sgil yr 'ymweliad gwirio cydweithredol' ar 17 Medi 2019






Mae'r rhain yn seiliedig ar dri pharth y Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig ac ar bedair o themâu '15 Steps for Maternity'.

Croesawgar a Llawn Gwybodaeth	Roedd y staff wedi croesawu'r Panel wrth inni ddod i mewn i'r Uned Cyn Geni ac wedi cyflwyno'u hunain. Roeddynt hefyd wedi croesawu defnyddwyr gwasanaeth wrth iddynt ddod i mewn. Teimlai'r Panel fod yr Uned Asesu Dydd a Cyn Geni yn gyfyng gyda choridoriau cyfyng a dim digon o olau mewn rhai mannau. Roedd arwyddion ond arwyddion dros dro o safon annigonol oeddynt mewn rhai mannau. At ei gilydd, roedd yr Hysbysfyrddau'n glir, yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ac wedi'u trefnu'n briodol. Un eithriad i hyn oedd yr hysbysfwrdd canolog ar y Ward Eni. Nid oedd hwn yn gyfredol. Roedd hysbysfwrdd pwnc y mis ar y Ward Eni - y pwnc cyfredol oedd sepsis. Roedd yno hefyd Fwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion a Bwrdd Greatix ar gyfer nodi sylwadau cadarnhaol. Yn yr Uned Ddydd/Cyn Geni roedd ymdeimlad cyffredinol o ddiffyg preifatrwydd ac roedd rhai sgysiau'n cael eu cynnal yn y coridoriau.
Diogel a Glân	Roedd pob ardal glinigol a welsom yn ymddangos yn lân, at ei gilydd, gan gynnwys y Man Aros yn yr Uned Ddydd. Roedd gwastraff papur cyfrinachol yn cael ei gadw mewn bagiau papur agored yn hytrach na mewn biniau glas wedi'u selio.

	Roedd man aros yr Uned Ddydd/Cyn Geni yn edrych yn lân. Felly hefyd y Ward Eni.
Cyfeillgar a Phersonol	Roedd y staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar. Roedd staff yn agored iawn wrth drafod gyda'r Panel, gan gynnwys wrth sôn am rai o'r heriau a'r pryderon oedd ganddynt.
Trefnus a Digynnwrf	Yn ystod ymweliad y Panel, roedd yr ardaloedd clinigol yn ymddangos yn drefnus ac roedd staff yn broffesiynol ac yn ddigynnwrf wrth wneud eu gwaith. Ond cafwyd rhai sylwadau oedd yn awgrymu nad oedd felly yr oedd hi bob amser a bod yr uned yn gallu bod yn ddryslyd ar adegau.
Sylwadau Staff/Sylwadau Ychwanegol	Eglurwyd na fyddem yn priodoli sylwadau a gasglwyd i neb. Ymysg y prif themâu a ddaeth i'r amlwg oedd bod staff yn teimlo bod y clinig cyn geni yn gyfyng a'i bod yn anodd cael lle preifat i ddefnyddwyr gwasanaeth drafod materion ar adegau - ac, yn benodol, y swyddfa oedd yn cael ei defnyddio pan oedd yn rhaid rhoi newyddion drwg i rywun. Roedd y clinig cyn geni yn brysur a dywedwyd bod hyn yn gallu bod yn straen i staff ar adegau. Nodwyd bod pethau'n gallu mynd yn flêr ar adegau, yn enwedig pan oedd galw mawr ar yr uned. Roedd staff yn ymddangos fel pe baent yn ymwybodol o rai o'r prif heriau oedd yn codi o adolygiad yr RCOG a hefyd o gael mynediad i'r data ar y Dangosfwrdd Clinigol. Gwnaed sawl sylw bod diwylliant cosbedigol a diwylliant o weld bai yn parhau i fod yn y sefydliad - ond roedd staff i weld yn barod i drafod hyn yn agored.

Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth

Asesiad o Gynnydd ar 20 Medi 2019



12 RHESTR O DERMAU

AC	Aelod Cynulliad
AaGiC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
AD	Adnoddau Dynol
ALI	Awdurdod Lleol
AMU	Uned gyfochrog dan arweiniad bydwagedd
Badgernet	System rheoli data cleifion yn y maes newyddenedigol
BI	Bwrdd Iechyd
BIP	Bwrdd Iechyd Prifysgol
BIPCT	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
BIPCT	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
BR+	Birthrate plus
CD	Cyfarwyddwr Clinigol
CEO	Prif Swyddog Gweithredol
CIC	Cyngor Iechyd Cymuned
CMB	Cyfarfod Bwrdd Clinigol
CMO	Prif Swyddog Meddygol
CNO	Prif Swyddog Nyrsio
COO	Prif Swyddog Gweithredol
CPD	Datblygiad proffesiynol parhaus
CSfM	Goruchwylwyr clinigol bydwagedd
CSR	Cyfraddau toriadau cesaraidd
CTG	Cardiotocograffeg
Datix	Meddalwedd diogelwch cleifion
DON	Cyfarwyddwr Nyrsio
EBC	Pob Baban yn Cyfrif

ELCS	Toriad cesaraidd dewisol
EMCS	Toriad cesaraidd dewisol brys
Euroking	System TG genedlaethol ar gyfer mamolaeth
GAP	Protocol asesu twf
Greatix	Cynllun yn seiliedig ar 'Datix' i gyfleu adborth cadarnhaol i staff
GROW	Pwysau gorau'n gysylltiedig â beichiogrwydd
HIE	Ensepalopathi isgemig hypocsaidd
HOM	Pennaeth Bydwreigiaeth
HOMAG	Penaethiaid Grwp Cyngori Bydwreigiaeth Cymru Gyfan
HSCSC	Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
HTA	Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
ICU	Uned Gofal Dwys
IMSOP	Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth
IOL	Prysuro'r esgor
IPAAF	Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd
LIC	Llywodraeth Cymru
KPI	Dangosyddion perfformiad allweddol
LNU	Uned newyddenedigol leol
LSA MO	Swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwyllo lleol
LSCS	Toriad cesaraidd y segment isaf
MBRRACE	Mamau a phlant: lleihau risg drwy archwiliadau ac ymholiadau cyfrinachol
MDT	Tim amlddisgyblaethol
MIB	Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth
MID	Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth
MIP	Rhaglen Gwella Mamolaeth
MITs	System Technoleg Gwybodaeth Mamolaeth (yn bwydo QlikSense)

MLC	Gofal dan arweiniad bydwagedd
MLU	Uned dan ofal bydwagedd
MPB	Bwrdd perfformiad mamolaeth
MSLC	Pwyllgor Cysylltu Gwasanaethau Mamolaeth
MVF	Fforwm Lleisiau Mamolaeth
NEWTT	System olrhain a sbarduno rhybudd newyddenedigol cynnar
NICU	Uned gofal dwys cynenedigol
NMPA	Archwiliad Mamolaeth a Chynenedigol Cenedlaethol
NNAP	Rhaglen Genedlaethol Archwilio Cynenedigol
O&G	Obstetreg a gynaecoleg
PADR	Adolygiad arfarnu a datblygu personol
PALS	Gwasanaeth Cyngori a Chydgysylltu Cleifion
PDM	Bydwraig datblygu ymarfer
PSAG	Cipolwg ar statws cleifion
PTR	Gweithio i Wella
Q&S	Ansawdd a Digelwch
QA	Sicrwydd Ansawdd
QlikSense	Meddalwedd gwybodaeth fusnes a dadansoddi gweledol
QSR	Ansawdd, Diogelwch a Risg
RCA	Dadansoddi gwraidd y broblem
RCA	Coleg Brenhinol yr Anasthetwyr
RCM	Coleg Brenhinol y Bydwagedd
RCOG	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
RCPCH	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
RGH	Ysbyty Brenhinol Morgannwg
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
SB	Marw-enedigaeth

SBAR	Byrfodd ar gyfer 'stillbirth, background, assessment and response' = 'marw-enedigaeth, cefndir, asesiad ac ymateb'
SCBU	Uned gofal arbenigol i fabanod
SCU	Uned gofal arbenigol
SFH	Uchder symffysis-ffwndws
SGA	Bach o ystyried oed y ffetws
SI	Digwyddiad difrifol
SM	Mesurau arbennig
SMART	Byrfodd ar gyfer 'Specific, Measurable, Achievable, Relevant and Time-Based' = 'Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Perthnasol a Seiliedig ar Amser"
SOM	Goruchwylwr bydwagedd
SRO	Uwch-swyddog Cyfrifol
SUI	Digwyddiad difrifol nad adroddwyd amdano
SWP	Cynllun De Cymru
TI	Ymyriad wedi'i dargedu
Trac	Cronfa ddata fawr o 'fyrddau swyddi ar gyfer y sector iechyd a'r sector cyhoeddus
UG	Uned Gyflawni GIG Cymru
USS	Sgan uwchsain
WRP	Cronfa Risg Cymru